

Adroddiad Stiwardiaeth

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2021



Rhagair

Rwyf yn falch iawn o gyflwyno Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol cyntaf Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), ar gyfer blwyddyn 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd gan Swyddogion yr wyth Awdurdod Cyfansoddol sydd rhyngddynt yn ffurfio PPC, ac a adolygwyd ac a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, yn esbonio beth fu PPC ar y cyd â'i amrywiol ddarparwyr gwasanaethau yn ei wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r cyfrifoldebau stiwardiaeth a nodir yn ein polisi buddsoddi cyfrifol. Mae'r adroddiad yn esbonio hefyd sut yr ydym wedi cydymffurfio â'r egwyddorion sy'n sail i God Stiwardiaeth y DU a ddiweddarwyd.

Cyflwynodd blwyddyn yr adroddiad heriau annisgwyl ac unigryw i bob un ohonom. Er gwaetha'r heriau a ddaeth yn sgil ymlediad trasig Covid-19, mae PPC wedi treulio amser yn rhoi yn ei le y seilwaith i weithredu ei pholisi buddsoddi cyfrifol a dangosodd gynnydd ar bob un o 19 ymrwymiad y polisi hwnnw. Ar yr ochr weithredol, mae symud at gyfarfodydd ar-lein wedi hwyluso cydweithio rhwng yr wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Un maes ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn oedd gwella'r adnodd a neilltuwyd i ymarfer stiwardiaeth. Mae dau ddatblygiad yn y maes hwn yn teilyngu sylw:

- Cwblhawyd y gwaith o benodi Robeco yn ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC yn rhan gyntaf y flwyddyn. Buom wedyn yn gweithio gyda Robeco i ddatblygu ein Polisi Pleidleisio a'n Blaenoriaethau Ymgysylltu, a chymerodd Robeco gyfrifoldeb am weithredu polisi pleidleisio PPC ar draws ein portffolio ecwiti gweithredol £5.2bn o 1 Ionawr 2021 a chynrychioli buddiannau PPC trwy weithgarwch ymgysylltu corfforaethol ar draws ein sail asedau.
- Gan gydnabod yr angen am graffu parhaus ar ein darparwyr, sefydlasom ein His-grŵp Buddsoddi Cyfrifol (BC). Rôl y Grŵp yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau buddsoddi cyfrifol PPC ac mae'n cynnwys swyddogion o'r holl Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod ddwywaith y chwarter erbyn hyn.

Bu'r Is-grŵp BC yn brysur ers ei ffurfio, yn helpu datblygu cynllun gwaith PPC, datblygu polisi pleidleisio PPC ar y cyd â Robeco ac adeiladu trefn fonitro barhaus ar draws is-gronfeydd PPC. Mae'r Is-grŵp yn gorff craffu hefyd ac, wrth weithio gydag ymgynghorwyr PPC, rhoddodd ar waith brosesau i herio'r darparwyr a benodwyd gan PPC.

Roedd newid hinsawdd a'r risgiau a chyfleoedd a ddaw yn ei sgil hefyd yn faes a gafodd gryn sylw gan PPC drwy'r flwyddyn. Aethom ati i ddatblygu a chyhoeddi ein polisi risg hinsawdd ein hunain yn ystod y flwyddyn, gan amlinellu'r Credoau Risg Hinsawdd a rannwn a'r camau a fabwysiadwyd gennym i reoli risg hinsawdd o fewn Is-gronfeydd PPC. Mae ein ffocws ar newid hinsawdd wedi cyfrannu hefyd at ddatblygu ein polisi pleidleisio, ac mae newid hinsawdd yn un o'n blaenoriaethau polisi parhaus.

Gan weithio gyda Russell Investments, buom hefyd yn datblygu a lansio 'menter ddatgarboneiddio' arloesol ar gyfer ein His-gronfa Cyfleoedd Byd-eang £2.5bn. Er y cafodd ei gweithredu wedi diwedd y flwyddyn, mae'n cynnig arbedion o ran rheoli portffolio a gostyngiad o 25% yn nwysedd carbon y gronfa a reolir gan Russell Investments. Credwn fod hwn yn gam cyntaf cadarnhaol iawn tuag at gyflawni ein nodau cynaliadwyedd hirdymor.

Mae addysg wedi parhau'n bwysig ac, er gwaethaf effaith y pandemig, cafodd ein cynllun hyfforddiant am y flwyddyn ei gwblhau. Bu stiwardiaeth yn elfen allweddol o'r rhaglen hyfforddiant hon a chawsom sesiynau gyda BlackRock, Hymans Robertson, ShareAction a Principles for Responsible Investment yn ystod y flwyddyn gan roi sylw i bynciau megis cydweithio, gweithredu ar hinsawdd a rheolaeth amgen ar gronfeydd mynegai. Helpodd hyn i adeiladu gwybodaeth ymhlith pawb sy'n rhan o PPC ac mae'n caniatáu proses gwneud penderfyniadau ac arolygu mwy effeithiol.

Yn olaf, rydym yn ymwybodol o'r angen i ddarparu gwybodaeth i'n holl randdeiliaid. Un maes ffocws arbennig i'r Is-grŵp BC oedd datblygu trefn adrodd sy'n cefnogi'r gwaith parhaus o arolygu ein his-gronfeydd, ac sy'n ein galluogi i raeadru gwybodaeth i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Cymerasom gamau da ymlaen yn datblygu trefn fonitro tuag at ddiwedd blwyddyn yr adroddiad, ac rydym ers hynny wedi cyflwyno hyfforddiant i randdeiliaid ar y mater hwn, ac rydym mewn sefyllfa dda i ddatblygu ein gwaith adrodd dros y flwyddyn nesaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dechrau adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd gennym. Gan fod cymaint o brif elfennau ein gwaith stiwardiaeth ar waith erbyn diwedd y flwyddyn, credwn y bydd blwyddyn 2021/22 yn gyfnod o atgyfnerthu ac o fireinio. Yn benodol:

- Bydd ein polisi pleidleisio yn cael ei adolygu tuag at ddiwedd y flwyddyn, gan fanteisio ar y profiad a gawsom o weithio gyda Robeco dros flwyddyn galendr 2021. Ein bwriad yw datblygu'r polisi hwn i ganolbwyntio ar yr egwyddorion a'r materion sy'n bwysig i'r wyth Awdurdod Cyfansoddol;
- Bydd risg hinsawdd yn parhau'n ffocws i PPC. Bydd hwn yn un maes y byddwn yn parhau i annog Robeco i ganolbwyntio eu hymdrechion stiwardiaeth arno a byddwn yn parhau i'w herio i wneud mwy, gan sicrhau y gwneir cynnydd ar ddyheadau risg hinsawdd a sero net.
- Byddwn yn gweithio hefyd i ddatblygu strategaeth ecwiti gynaliadwy a chyfres o gronfeydd marchnadoedd preifat. Bwriadwn roi ystyriaeth i stiwardiaeth a risg hinsawdd ynghanol y gwaith hwn.
- Yn olaf, byddwn yn ceisio gwneud ein gweithgarwch yn fwy tryloyw, gan weithio i rannu mwy o wybodaeth gyda'n holl randdeiliaid ar weithgarwch PPC, a dangos ein bod yn ceisio bod yn geidwaid da ar ein hasedau.

Rydym yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf a gobeithiaf y bydd y 12 mis nesaf yr un mor llwyddiannus.

Clive Lloyd

Cadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Hydref 2021

Cynnwys

Rhagair	2
1 Pwrpas a llywodraethu Egwyddor 1: Pwrpas, strategaeth a diwylliant Egwyddor 2: Llywodraethu, adnoddau a chymelliadau Egwyddor 3: Buddiannau croes Egwyddor 4: Hyrwyddo marchnadoedd sy'n gweithio'n dda Egwyddor 5: Adolygu a sicrwydd	5
2 Agwedd at fuddsoddi Egwyddor 6: Anghenion cleientiaid a buddiolwyr Egwyddor 7: Stiwardiaeth, buddsoddi ac integreiddio ESG Egwyddor 8: Monitro rheolwyr a darparwyr gwasanaethau	21
3 Ymgysylltu Egwyddor 9: Ymgysylltu Egwyddor 10: Cydweithio Egwyddor 11: Dwysâd	29
4 Ymarfer hawliau a chyfrifoldebau Egwyddor 12: Ymarfer hawliau a chyfrifoldebau	36

1 Pwrpas a llywodraethu

Egwyddor 1: Mae pwrpas y llofnodwyr, credoau buddsoddi, strategaeth, a diwylliant yn galluogi stiwardiaeth sy'n creu gwerth hirdymor i gleientiaid a buddiolwyr gan arwain at fuddion cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ("PPC"), a sefydlwyd yn 2017, yn gydweithrediad rhwng yr wyth Cronfa Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol ("CPLIL") sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Gelwir yr wyth cronfa CPLIL yn Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC yn un o wyth Cronfa CPLIL genedlaethol ar draws Lloegr a Chymru. Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n ffurfio PPC fel a ganlyn:



Mae gan yr Awdurdodau Cyfansoddol hanes hir a llwyddiannus o gydweithio, gan gynnwys enghreifftiau a welwyd cyn menter gyfuno'r Llywodraeth a ffurfio PPC. Mae PPC yn falch o'i hunaniaeth unigryw fel Cronfa - mae ei Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli a chwmpasu Cymru gyfan, gan greu aliniad daearyddol o fuddiannau. Mae bod yn ddemocrataidd atebol yn golygu fod PPC yn darparu llywodraethu a thryloywder cryf y sector cyhoeddus ar ei orau.

Bwriedir i fodel gweithredu PPC fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian. Mae PPC wedi penodi Gweithredwr allanol ac mae'n defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn defnyddio'r arbenigedd gorau i gefnogi'r gwaith o reoli'r Gronfa. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions ac maent wedi partneru gyda Russell Investments i reoli'r buddsoddiadau a chynorthwyo i leihau costau rheoli buddsoddiadau ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC, wedi ymgynghori â phob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, wedi llunio ei phrif amcanion y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain, lle'n ymarferol;
- Sicrhau arbedion cost gwirioneddol i aelod gronfeydd wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd;
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn goruchwyllo gweithgareddau'r Gronfa;
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r buddion y gallai pob rhanddeiliad yng Nghymru eu mwynhau trwy ddatrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib;
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cynnig y deilliannau gorau i'w phrif randdeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i sicrhau'r deilliannau gorau i Aelod a Chyflogwyr eu Cynlluniau.

Mae PPC yn gweithio ar sail set o gredoau a rannant

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu nerth yn deillio o'r credoau a rannant a'u gallu i weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu hamcanion unedig er lles holl randdeiliaid PPC. Ceir y set gyflawn o gredoau a rennir yn [Llawlyfr Llywodraethu](#) y Gronfa ac fe'u hamlinellir isod.

Y credoau buddsoddi a rannwn

- Rôl PPC yw hwyluso a darparu llwyfan cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol;
- Dylai llywodraethu da greu gwell deilliannau i randdeiliaid PPC;
- Mae cydweithio mewnol rhwng y Trefnydd a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion PPC. Gall cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd er mwyn creu arbedion cost a gwell deilliannau i randdeiliaid;
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau lliniaru Risg Hinsawdd effeithiol ynghyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ehangach ar sail tystiolaeth arwain at well deilliannau i randdeiliaid PPC;
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion PPC;
- Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o gryfhau adnoddau, galluoedd ac arbenigedd PPC;
- Bydd tryloywder ynghylch ffioedd a chostau yn helpu'r broses gwneud penderfyniadau ac yn cynnig gwell deilliannau i randdeiliaid;
- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn helpu PPC a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu;
- Bydd agwedd hyblyg at strwythur cronfa a dulliau gweithredu PPC yn galluogi cronfa PPC i addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhanddeiliaid.

Adlewyrchir y credoau hyn yn y model gweithredu a ddewiswyd gan PPC ond maent hefyd wedi dylanwadu ar y ffordd y ceisiodd PPC ddatblygu ei hagwedd at stiwardiaeth. Er enghraifft, mae'r ffocws ar wella llywodraethu wedi arwain at ddatblygu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu corff ar wahân i ddatblygu polisi a chraffu ar ddeilliannau. Mae'r Is-grŵp BC hefyd yn adlewyrchu manteision cydweithio. Byddwn yn manylu ar rôl yr Is-grŵp BC yn ddiweddarach o dan Egwyddor 2.

Mae PPC wedi cydnabod hefyd ei bod angen arbenigedd allanol er mwyn cyflawni ei hamcanion, ac adlewyrchwyd hynny ym mhenodiad Robeco yn ystod y flwyddyn, mater arall yr ydym yn manylu arno yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae'r penodiad hwn wedi galluogi PPC i adeiladu ar ei gallu i adlewyrchu ei chredoau Buddsoddi Cyfrifol unigol.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn cael ei ystyried yn allweddol ar gyfer sicrhau deilliannau llwyddiannus i randdeiliaid

Yn ei pholisi mae PPC yn diffinio Buddsoddi Cyfrifol i olygu *“arferion buddsoddi sy'n integreiddio ystyried ffactorau ESG mewn prosesau rheoli buddsoddiadau ac arferion perchnogaeth, gan gydnabod y gall y ffactorau hyn gael effaith wirioneddol ar berfformiad ariannol.”*

Uchelgais hirdymor PPC yw dangos arweinyddiaeth ar arferion Buddsoddi Cyfrifol wrth reoli asedau dros ac ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC yn cydnabod fod datblygu credoau yn cynrychioli arfer gorau i berchnogion asedau. Gan adeiladu ar ei chredoau sefydliadol craidd, ac wedi ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae PPC hefyd wedi datblygu a chytuno'r credoau Buddsoddi Cyfrifol canlynol sy'n sail i'w phrosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu.

Credoau Buddsoddi Cyfrifol

- Rhaid i'r ymddygiadau BC yr ydym am i'n holl randdeiliaid eu harddangos gael eu harwain gan PPC;
- Mae integreiddio ffactorau ESG, gan gynnwys newid hinsawdd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o gofio'r potensial i golli arian;
- Mae PPC ar ei mwyaf effeithiol yn fuddsoddwr yn gweithio dros newid o'r tu fewn, yn enwedig wrth gydweithio gyda buddsoddwyr eraill o'r un anian, yn hytrach nag yn ymgyrchydd yn pwysu am newid o'r tu allan;
- Bydd ein heffaith ar ymddygiadau corfforaethol ar ei chryfaf pan siaradwn ag un llais;
- Mae trosolwg effeithiol o arferion BC yn galw am ddatgelu clir a mesur data cynhwysfawr.

Caiff y credoau hyn eu hadolygu'n flynyddol a chafwyd yr adolygiad diwethaf yn Ch4 2020. Maent yn ffurfio craidd fframwaith llywodraethu PPC ac fe'u defnyddiwyd i lywio holl weithgarwch a phenderfyniadau PPC, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau. Mae fframwaith llywodraethu PPC yn ceisio sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i benderfyniadau allweddol ac y caiff adnoddau eu ffocysu ar feysydd sydd fwyaf tebygol o gyfrannu at lwyddiant PPC i'r dyfodol.

Trwy'r strwythur hwn, mae PPC wedi cydnabod ei rôl yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol ac yn enwedig felly'r angen i gydweithio. Fodd bynnag, o gofio'r model a ddefnyddiwyd, mae PPC wedi cydnabod hefyd fod rhaid iddi weithio gyda, a dibynnu'n drwm ar, y darparwyr a benododd.


Un arwydd amlwg o'r strwythur hwn dros y 12 mis diwethaf fu'r ffocws ar stiwardiaeth trwy benodi Robeco ac yn sgil hynny datblygu un polisi pleidleisio. Mae gweithredu'r polisi hwn o 1 Ionawr 2021 wedi rhoi'r gallu i PPC siarad ag un llais ac, wrth i'r polisi hwn ddatblygu trwy gael mewnbwn parhaus gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, mae PPC yn disgwyl gweld ffocws cynyddol ar faterion sy'n bwysig i'n rhanddeiliaid.

Mae PPC yn barnu y cymerwyd camau da ymlaen yn rhoi sylw i stiwardiaeth dros y 12 mis diwethaf. Gan y cynrychiolir yr wyth Awdurdod Cyfansoddol ar yr Is-grŵp BC, rydym wedi sicrhau y gall pob un o'n rhanddeiliaid uniongyrchol gyfrannu at benderfyniadau. Mae'r drefn hon, ynghyd â'n fforymau eraill, yn golygu y gall pob Awdurdod godi materion o bwys lleol, ac yna rhoddir trefn blaenoriaeth ar weithredu arnynt. Er enghraifft, mae'r Is-grŵp BC wedi gweithredu ar yr angen am drosolwg effeithiol ac, wrth weithio gyda'i ddarparwyr, gweithiodd i ddatblygu proses fonitro fanylach, gan nodi y bydd hynny'n arwain yn y pendraw at fwy o dryloywder gan PPC. Bydd hyn yn galluogi PPC i gyflawni un o'i chredoau craidd, sef yr angen am gyfathrebu mewnlol ac allanol effeithiol.

Egwyddor 2: Mae llywodraethu, adnoddau a chymelliadau llofnodwyr yn cefnogi stiwardiaeth.

Yr Awdurdodau Cyfansoddol yw elfen bwysicaf PPC; nhw yw aelodau gwreiddiol PPC ond nhw hefyd yw ei phrif randdeiliaid. Ffuriodd yr Awdurdodau Cyfansoddol Gyd-bwyllgor Llywodraethu ("CBLI") PPC er mwyn cael trosolwg ar PPC ac adrodd ar ei gweithgarwch. Cyn ffurfio'r CBLI cytunodd yr Awdurdodau Cyfansoddol y dylai nifer o benderfyniadau aros yn nwylo'r Awdurdodau Cyfansoddol, a gellid ystyried y gweddill yn faterion i Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC.

Ers hynny mae'r Gronfa wedi sefydlu trefn lywodraethu glir yn cynnwys Is-Bwyllgorau pwrpasol i sicrhau y ceir trefn gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae PPC yn gyfrifol am sicrhau y cyflawnir ei gwaith yn unol â rheoliadau a chanllawiau. Rhaid iddi sicrhau hefyd fod: arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y ceir cyfrif priodol amdano; y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau gwerth gorau am arian. Anelwn hefyd am wella parhaus a chydymffurfio â'r arfer gorau yn y diwydiant.



Mae PPC yn esbonio sut mae'n delio â phob agwedd ar Lywodraethu trwy ei Chytundeb Rhwng Awdurdodau ("CRhA"), sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, eu Haelodau, Pwyllgorau a Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau, gan roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth berthnasol. Mae CRhA PPC i'w weld yn ei Llyfryn Llywodraethu.

Mae'r CBLI yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r CBLI yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol ac o Bwyllgor Pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cylchdroi'n flynyddol. Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CBLI ddarpariaeth ar gyfer cyfethol aelod gynrychiolydd (heb bleidlais) o gynllun y bwrdd pensiynau ar y CBLI. Mae'r CBLI yn gyfrifol am gymryd trosolwg o'r gwaith o gyfuno buddsoddiadau'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Sefydlwyd y Gweithgor Swyddogion (GS) gyda'r bwriad o gynnig cefnogaeth a chynghor i'r CBLI. Mae'r gweithgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn debyg i'r CBLI, mae gan y GS hanes da o ran ymgysylltu a phresenoldeb. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol yng nghyfarfodydd y GS ac mae'n gyffredin gweld y Swyddog Adran 151 ac Ymarferydd ar gyfer pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol.

Mae darparwyr ac ymgynghorwyr allanol PPC hefyd yn mynychu cyfarfodydd y GS ac yn darparu cefnogaeth neu'n cynnig cyngor yn ôl y galw. Ar hyn o bryd mae Gweithredwr PPC, y Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau a'r Ymgynghorydd Trosolwg oll yn mynychu holl gyfarfodydd y GS. Mae partïon eraill megis ymgynghorwyr tryloywder costau, Robeco, cynrychiolwyr Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac Archwilio Cymru hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y GS pan mae angen.

Mae aelodau'r GS hefyd yn cyfarfod bob pythefnos. Defnyddir y cyfarfodydd rhithiol hyn i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd ffurfiol y GS, ac fe'u defnyddir i symud gwaith yn ei flaen yn ôl y galw. Mae'r trefniant hwn yn parhau i feithrin cydweithio rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol a chyflenwyr PPC ac mae wedi golygu y gellir trafod materion stiwardiaeth mewn ffordd ad hoc yn ôl y galw. Er enghraifft, mae'r cyfarfodydd anffurfiol hyn wedi golygu y gellid datblygu strategaeth troshaen garbon isel a pholisi pleidleisio PPC.

Mae PPC hefyd wedi sefydlu nifer o 'is-grwpiau' a ffurfiwyd i ddatblygu neu symud yn eu blaenau rai elfennau o gynllun gwaith PPC. Mae'r holl is-grwpiau yn cael eu ffurfio o is adran o'r GS ac maent yn gyfrifol am adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r GS cyfan. Yr is-grwpiau hyn yw:

- Yr **Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol** sy'n gyfrifol am lunio a datblygu Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol PPC yn ogystal â thrafod gyda Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC.
- Yr **Is-grŵp Risg** sy'n gyfrifol am fonitro, gofalu am a gweithredu Cofrestr a Pholisi Risg PPC.
- Yr **Is-grŵp Marchnadoedd Preifat** sy'n gyfrifol am lunio a datblygu Is-gronfa/eydd Marchnadoedd Preifat PPC.
- Yr **Is-grŵp Caffael** sy'n gyfrifol am ymarferion caffael.

Mae PPC yn credu fod lefel yr amser y mae Swyddogion ac Ymgynghorwyr yn ei neilltuo i holl waith PPC ynghyd â'r ffocws cynyddol fanwl ar weithgareddau gwahanol yn caniatáu iddi neilltuo amser ac adnoddau digonol ar gyfer pob un o'i weithgareddau.

Mae PPC wedi adeiladu ei ffocws ar stiwardiaeth

Roedd sefydlu'r Is-Grŵp Buddsoddi Cyfrifol yn gam hollbwysig gan PPC i sicrhau ei bod yn neilltuo digon o amser a sylw i weithgarwch stiwardiaeth. Mae'r Is-grŵp BC yn cynnwys Swyddogion o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol, gyda chefnogaeth gan ymgynghorwyr allanol i ddarparu mewnbwn arbenigol yn ôl y galw.

Mae gan yr Is-grŵp BC ei Gylch Gorchwyl ei hun a'i brif rôl yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau Buddsoddi Cyfrifol a newid hinsawdd PPC. Prif feysydd ffocws yr Is-grŵp BC yw:

- Ffurfio Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol blynyddol i PPC sy'n galluogi PPC i weithio tuag at ei hamcanion BC;
- Gweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi, y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ac ymgynghorwyr a benodwyd gan PPC a darparwyr gwasanaethau eraill i sicrhau bod polisiau Buddsoddi Cyfrifol a newid hinsawdd PPC yn cael eu gweithredu'n effeithiol;
- Datblygu arferion ar gyfer monitro ac adrodd ar faterion Buddsoddi Cyfrifol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau PPC i'w rhanddeiliaid;
- Monitro gweithgarwch Buddsoddi Cyfrifol, gan gynnwys metrig ESG a chofnodion pleidleisio ac ymgysylltu a darparu neu herio'n uniongyrchol yn ôl y galw;
- Ystyried datblygiadau yn y farchnad a datblygiadau rheoleiddiol i sicrhau y gall PPC roi ystyriaeth i arfer gorau werth iddo ddatblygu;

- Bod yn gyfrwng ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cronfeydd CPLIL eraill.

Un o'r prif ddeilliannau y mae PPC wedi ceisio'u cyflawni yw rhoi ffocws ar weithgarwch stiwardiaeth. Mae creu'r Is-grŵp BC a'r gwaith a wnaeth ers ei sefydlu wedi arddangos ei effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trwy gyflawni un o'r prif ymrwymadau a wnaed ym mholisiau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC – datblygu trefn o adrodd sy'n galluogi PPC i fonitro a rheoli risgiau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd. Er enghraifft, mae'r Is-grŵp BC erbyn hyn yn derbyn adroddiadau monitro Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd manwl ar gyfer pob un o Is-gronfeydd PPC yn chwarterol ac mae'n sicrhau bod PPC yn parhau i gyflawni gofynion ei hagenda ehangach, fel y nodir yn Egwyddor 6.

Astudiaeth enghreifftiol: Adeiladu gwybodaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol

Mae PPC wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu'n barhaus. Roedd ffurfio Polisi Hyfforddiant PPC, a Chynllun Hyfforddiant Blyneddol PPC a'i dilynodd, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol, yn arbennig o galonogol gan ei fod yn dangos ymrwymiad parhaus PPC i ddarparu buddion o Gyfuno nad ydynt yn ymwneud â buddsoddiadau'n unig. Amlygodd hefyd y lefelau uchel o ymgysylltu a meddylfryd o'r un anian ymhlith yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae PPC wedi defnyddio adnoddau allanol i'w chefnogi

Mae PPC yn credu y gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o gryfhau adnoddau, galluedd ac arbenigedd PPC. Cynhaliodd PPC ymarferiadau profi'r farchnad ac ymarferiadau caffael neu benodi cysylltiol trylwyr i gontractio'r cyflenwyr canlynol, gan gredu y bydd y cyflenwyr yma, ar hyn o bryd, yn gallu cynorthwyo PPC i gyflawni'r deilliannau gorau a mwyaf cost-effeithiol ar gyfer ei rhanddeiliaid.

O blith y gwahanol berthnasodedd a drefnwyd i gefnogi ei gweithgareddau llywodraethu o ddydd i ddydd, mae PPC yn dibynnu'n drwm ar bedwar darparwr allanol i gefnogi eu gweithgarwch stiwardiaeth.

Link Fund Solutions Ltd (Y Gweithredwr)

Penodwyd Link Fund Solutions Ltd (Link) yn Weithredwr allanol, a chyda chefnogaeth Russell Investments, gweithiant i hwyluso datrysiadau rheoli buddsoddi effeithiol a darparu perfformiad cryf heb gynnwys ffioedd ar gyfer yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae Link yn cefnogi gwaith Stiwardiaeth PPC trwy ddarparu gwasanaethau hollbwysig gan gynnwys adroddiadau trosolwg o reolwyr, gan gynnwys perfformiad a newidiadau sgorio rheolwyr yn ogystal â phwrpasu gofynion canllawiau i reolwyr, yn enwedig felly o ran meini prawf Buddsoddi Cyfrifol ac ESG.

Russell Investments (Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau)

Ar y cyd â Link Fund Solutions, mae Russell Investments yn darparu datrysiadau rheoli buddsoddi i PPC. Ynghyd â Link Fund Solutions, gweithiant trwy ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu cerbydau buddsoddi. Mae cylch gorchwyl Russell yn cynnwys cynghori Link Asset Services (is gwmni Link Fund Solutions) a PPC ar adeiladu portffolio sy'n cynnwys dewis rheolwr.

Mae Link Fund Solutions yn parhau i weithio gyda Russell Investments, lle'n berthnasol, i leihau costau PPC ymhellach trwy strwythurau aml-reolwr, datrysiadau rheoli ariannau, troshaenau portffolio, rheoli trosglwyddiadau a gwasanaethau gweithredol eraill. Er na chafodd Russell eu penodi'n ddarparwr ymgysylltu fel y cyfryw, maent yn dal i gyflawni dyletswyddau stiwardiaeth i PPC. Ceir mwy o fanylion am rai o'r gweithgareddau y mae Russell yn eu darparu ar gyfer PPC o dan Egwyddorion 7 a 9.

Hymans Robertson (Yr Ymgynghorydd Trosolwg)

Penodwyd Hymans Robertson yn Ymgynghorwyr Trosolwg ar gyfer PPC. Mae rôl Hymans Robertson yn cwmpasu gwaith trosolwg a chynghor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd y GS a'r CBLI yn ogystal â darparu mewnbwn arbenigol i'r Is-grŵp BC.

Robeco UK (Darparwr Pleidleisio Procsi ac Ymgysylltu)

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Robeco yn ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC yn dilyn ymarferiad tendro cystadleuol. Eu rôl yw cynorthwyo PPC i gynnal Egwyddorion Polisi Pleidleisio ac Ymgysylltu sy'n gydnaws ag aelodaeth yr Awdurdodau Cyfansoddol o'r LAPFF. Hefyd, cymerodd Robeco gyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol £5.2bn PPC yn ogystal ag adrodd i PPC a'r Cronfeydd gwaelodol.

Astudiaeth enghreifftiol: Sefydlu Robeco yn arbenigwr stiwardiaeth pwrpasol

Wedi penodi Robeco yn 2020, buom yn gweithio'n agos â nhw i gytuno Polisi Pleidleisio, ymgynghori ar Egwyddorion Ymgysylltu allweddol a datblygu trefn adrodd reolaidd. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd oedd yn caniatáu i Robeco ddeall ein trefn lywodraethu a'n gofynion adrodd ar y pryd a sefydlu'r ffrydiau a phrosesau data angenrheidiol. Cafwyd cyfarfodydd eraill hefyd i feithrin ymgysylltu gyda'r CBLI ac eraill ar y rôl y byddai Robeco yn ei chyflawni.

Fel y dywedir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, bu Robeco hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisi pleidleisio a blaenoriaethau pleidleisio PPC ei hun, a chafodd y ddau eu mabwysiadu'n ffurfiol gan PPC yn ystod y flwyddyn, a chymerodd Robeco gyfrifoldeb ffurfiol am weithgarwch pleidleisio o 1 Ionawr 2021. Mae PPC, trwy aelodau o'i Is-grŵp BC, wedi gweithio hefyd gyda Robeco ar bennu blaenoriaethau ymgysylltu.

Mae PPC yn cydnabod fod yna angen am welliant parhaus

Wrth i PPC weithio i ymwreiddio ei ddarparwyr a'r prosesau sydd eu hangen, daeth yn amlwg fod yna feysydd y mae angen eu gwella. Dau faes penodol y gwelwyd fod angen eu gwella ac yr aethpwyd i'r afael â nhw yw:

- Gwahanu gwaith yr Is-grŵp BC rhwng craffu a datblygu polisi. Penderfynwyd fod angen mwy o ffocws yn yr Is-grŵp BC ar bob un o'r meysydd hyn, a chanlyniad hynny yw y trefnodd y Grŵp ddwy raglen waith.
- Adeiladu prosesau i adnabod themâu stiwardiaeth o bwys. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd PPC fewnbwn cychwynnol i Robeco ar themâu ymgysylltu o bwys er y dylanwadwyd ar y rhain gan ddeialog barhaus o fewn PPC yn hytrach na chan ddeialog fwy sylfaenol. Mae PPC wedi rhoi gwell proses ar waith er mwyn darparu mewnbwn yn ystod 2021 ac mae'n bwriadu cynnal ymarferiad manylach yn ystod 2022 fydd yn ategu at yr adolygiad arfaethedig o bolisi pleidleisio PPC.

Mae PPC yn cydnabod hefyd fod adrodd yn erbyn Egwyddorion y Cod Stiwardiaeth yn ddefnyddiol ynddo'i hun ac mae'n bwriadu sicrhau y caiff y broses hon ei hun ei hadolygu ac y gwreiddir yr hyn a ddysgir yng ngweithgarwch PPC.

Egwyddor 3: Mae llofnodwyr yn rheoli buddiannau croes er mwyn rhoi mwyn rhoi buddiannau gorau cleientiaid a buddiolwyr yn gyntaf.

Mae Awdurdodau Cyfansoddol PPC wastad wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro buddiannau croes. Mae proses gyfuno CPLLL wedi golygu hefyd y bu'n rhaid i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddelio â bodolaeth buddiannau croes. Mae hyn yn adlewyrchu'n syml iawn y ffaith y bydd gan Personél a Darparwyr PPC nifer o rolau a chyfrifoldebau eraill megis, er enghraifft, yn aelodau o Gynlluniau Awdurdodau Cyfansoddol neu'n ymgynghorydd i fwy nag un o Awdurdodau Cyfansoddol PPC.

Disgrifir dull PPC o reoli Buddiannau Croes yn ei [Pholisi Buddiannau Croes](#). Lluniwyd y Polisi hwn i arddangos ei hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro buddiannau croes. Egwyddorion allweddol ffordd PPC o reoli gwrthdrawiadau yw:

- **Adnabod:** dylai partïon fod yn flaengar yn y ffordd yr ânt ati i geisio creu'r gallu i reoli unrhyw fuddiannau croes sy'n codi;
- **Cydnabod:** rhaid i bartïon gydnabod unrhyw fuddiannau croes allai fod ganddynt;
- **Datgelu:** dylai partïon fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw fuddiannau croes allai fod ganddynt;
- **Rheoli:** dylai partïon weithio i fabwysiadu atebion ymarferol i fuddiannau croes lle bynnag y gallant.

Mabwysiadodd PPC ddiffiniad o fuddiannau croes sy'n cynnwys buddiannau croes posib, tybiedig a gwirioneddol. Mae PPC yn deall na fydd efallai'n bosib adnabod, rheoli a monitro pob budd croes posib a thybiedig, ond bydd yn ceisio adnabod, rheoli a monitro'r buddiannau croes hyn lle y bo modd. Lluniwyd y Polisi hwn i ddarparu canllawiau i Personél a Darparwyr PPC, a'i nodau yw sicrhau nad yw Personél a Darparwyr PPC yn ymddwyn yn amhriodol. Datblygwyd y polisi hwn gan PPC wedi ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae gan PPC ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er lles gorau rhanddeiliaid a buddiolwyr PPC, ond nid yw hynny'n rhwystro Personél a Darparwyr PPC rhag cael rolau a chyfrifoldebau eraill allai arwain at fuddiannau croes. Mae'n bwysig y dilynir egwyddorion llywodraethu da ac y rhoddir polisi a gweithdrefn buddiannau croes, megis hwn, ar waith er mwyn amlinellu sut mae buddiannau croes yn cael eu hadnabod, eu rheoli a'u monitro.

Astudiaeth enghreifftiol: Gweithio gyda sefydliadau'r diwydiant

Gwahoddwyd un aelod o'r Is-grŵp BC i ymuno â chorff diwydiant mewn swydd anweithredol. Mae'r corff hwn yn ceisio annog arfer gorau ar feysydd buddsoddi ac mae'n gyfrwng y gallai PPC ei ddefnyddio yn y dyfodol. Er nad yw'n cael ei ystyried yn ffynhonnell gwrthdaro, diweddarodd yr unigolyn eu datgeliad Buddiannau Croes a rhoddodd wybod i bartïon gwahanol am y penodiad.

Mae PPC yn rheoli gwrthdrawiadau posib gyda'i Darparwyr Allanol

Fel rhan o'i pholisi Buddiannau Croes, mae PPC yn cydnabod y gallai ei defnydd o Ddarparwyr Allanol fod yn ffynhonnell gwrthdaro ac mae wedi sicrhau bod gan ei darparwyr eu polisiau gwrthdrawiadau eu hunain ar waith.

Russell Investments:

Bu PPC yn trafod buddiannau croes posib gyda Russell fel stiwardiaid cyfalaf. Fel rheolwyr buddsoddi, cadarnhaodd Russell y gallai fod ganddynt fuddiannau croes strwythurol sy'n hysbys ac y mae'n rhaid eu rheoli, megis cael eu talu yn seiliedig ar lefelau AUM.

Gan ei fod yn ymwneud yn benodol â PPC, mae Russell wastad wedi gofalu fod unrhyw fuddiannau croes posib yn cael eu rheoli'n effeithiol. Fel rhan o hyn, mae ganddynt drefn ffi cost-a yn ei lle, sy'n golygu fod unrhyw arbedion cost gwaelodol dros amser yn cael eu pasio'n ôl i PPC. Mae Russell yn nodi hefyd nad ydynt yn rhedeg unrhyw arian yn fewnol ar gyfer PPC, sy'n cael gwared â budd croes posib.

Robeco UK

Mae Polisi Stiwardiaeth Robeco yn amlinellu eu dull o adnabod a rheoli buddiannau croes. Mae'r dull yn seiliedig ar 'weithdrefn Buddiannau Croes' Robeco. Yn 2020, fel rhan o weithgareddau stiwardiaeth arferol Robeco, gwelwyd rhai buddiannau croes posib ac fe'u rheolwyd yn unol â'r polisi stiwardiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio pleidleisiau procsi yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol (darpar) gleientiaid neu gysylltiadau Robeco.

Astudiaeth enghreifftiol: Gwrthdrawiadau pleidleisio

Er mwyn osgoi'r buddiannau croes posib fyddai ynghlwm wrth ethol cyfarwyddwyr ar fwrdd Orix Corporation, mam gwmni Robeco, ymatalodd Robeco rhag rhoi cyngor i PPC ar sut i bleidleisio ar gyfer cyfarfod cyfranddalwyr Orix Corporation.

Hymans Robertson

Mae gan Hymans Robertson bolisi gorfodol ar gyfer rheoli buddiannau croes ar draws holl gwmnïau'r grŵp y mae disgwyl i'w staff ei ddilyn. Gall buddiannau croes godi pan gyflogir Hymans Robertson i ddarparu cyngor i un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yng Nghymru, tra'n darparu cyngor i PPC ar yr un pryd.

Mae nifer o berthnasoedd cynghori o'r fath yn bod yn barod ac fe'u datgelwyd i bob parti. Rheolir yr holl fuddiannau croes fesul un trwy sicrhau nad yw'r timau sy'n cynghori PPC yn gyfrifol am y cyngor parhaus i Awdurdodau Cyfansoddol unigol. Pan roddir unrhyw gyfarwyddiadau newydd, mae Hymans Robertson wedi rhoi gwybod i PPC a'r parti perthnasol am y budd croes posib.

Egwyddor 4: Mae llofnodwyr yn adnabod ac ymateb i risgiau ar draws y farchnad a systemig er mwyn hyrwyddo system ariannol sy'n gweithio'n dda.

Mae rheoli risg yn elfen hollbwysig o ymrwymiad PPC i lywodraethu da; mae PPC wedi datblygu strategaeth risg drefnus, helaeth a chadarn. Cafodd y strategaeth hon ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu PPC er mwyn gwella'r broses gwneud penderfyniadau, sicrhau gwell deilliannau i randdeiliaid a gwella effeithlonrwydd. Sefydlwyd Is-grŵp Risg pwrpasol i ofalu am a gwerthuso [Cofrestr Risg](#) PPC bob chwarter.

Mae PPC wedi ffocysu ar newid hinsawdd fel risg systemig allweddol

Mae PPC yn credu'n gryf fod newid hinsawdd yn risg systemig ac yn bryder ar hyn o bryd. Mae hyn wedi creu ffocws a'r angen i weithredu. Yn ystod cyfnod yr adroddiad lluniodd a chytunodd PPC [Bolisi Risg Hinsawdd](#), yn amlinellu credoau risg hinsawdd unedig PPC a pha gamau mae wedi'u mabwysiadu i reoli risg hinsawdd o fewn Is-Gronfeydd PPC. Prif agweddau'r polisi hwn yw:

- Cydnabod rôl PPC yn hwyluso gallu'r Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu eu polisiâu risg hinsawdd eu hunain, gan ddarparu datrysiadau sy'n diwallu eu cyd anghenion;
- Lleihau'n raddol y tebygrwydd fod risgiau'n gysylltiedig â hinsawdd yn effeithio ar werth neu berfformiad yr asedau a gedwir yn is-gronfeydd PPC;
- Monitro amlygiad i risgiau'n gysylltiedig â hinsawdd o fewn yr is-gronfeydd ac adrodd i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar amlygiadau hinsawdd yn ôl y galw;
- Sicrhau bod rheolwyr buddsoddi a darparwyr eraill yn rhoi sylw priodol i risg hinsawdd wrth ddarparu eu gwasanaethau neu reoli asedau;
- Sicrhau yr eir i'r afael â risg hinsawdd wrth i Robeco ymarfer stiwardiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd PPC ar weithredu datrysiad carbon isel (gweler yr astudiaeth enghreifftiol isod), datblygu monitro priodol ar gyfer yr is-gronfeydd a datblygu ei hagwedd ar stiwardiaeth, gan sicrhau y caiff ystyriaethau hinsawdd eu hadlewyrchu yn y dull a fabwysiadwyd. Wedi cyfnod yr adroddiad, mae PPC hefyd wedi adolygu a diweddarau ei pholisi risg hinsawdd.

Astudiaeth enghreifftiol: Datblygu datrysiadau ecwiti i ddiwallu Anghenion Awdurdodau

Cyfansoddol

Fel y nodwyd yn ei pholisi hinsawdd, un o brif rolau PPC yw datblygu a gweithredu datrysiadau sy'n diwallu anghenion ei Hawdurdodau Cyfansoddol. Un nod o'r fath a gytunwyd gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ystod y flwyddyn oedd yr awydd i leihau amlygiad i allyriadau carbon fel ffynhonnell bosib o risg trosiant o fewn asedau ecwiti byd-eang.

Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd PPC gyda Russell i ddatblygu a gweithredu mecanwaith arloesol gan ddefnyddio seilwaith Gweithredu Portffolio Ehangach (GPE) Russell Investments i leihau lefelau amlygiad i risg carbon ar draws £2.5bn o'r asedau yn y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang. Trwy weithredu'r newid hwn gwelwyd mandad ecwiti byd-eang PPC yn cyflawni gostyngiad wedi'i dargedu yn ei hól troed carbon ac amlygiad i weddillion tanwydd ffosil gan 25% o gymharu â'i meincnod byd-eang. Manylwn ar y newid hwn yn Egwyddor 6.

Mae PPC wedi gweithio hefyd gyda Baillie Gifford, un o'r rheolwyr yn Is-Gronfa Twf Byd-eang, i gael sicrwydd o, a gwneud newid i, eu mandad sy'n cyflwyno proses sydd wedi'i halinio'n well â Chytundeb Paris. Oherwydd y newid hwn, a gyflwynwyd ar ôl diwedd y flwyddyn, tynnwyd nifer fach o gwmnïau heb eu halinio allan o'r portffolio.

Mae Russell wedi diweddarau ei Bolisi Risg Cynaliadwydd ei hun er mwyn adlewyrchu'n well yr angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gwella datgelu

Mae PPC yn gweithio'n agos gyda'i phrif Ddarparwyr Gwasanaethau i sicrhau bod eu prosesau'n cael eu diweddarau er mwyn rhoi sylw priodol i newidiadau yn y farchnad a risgiau systemig. Ar ddechrau mis Mawrth 2021, mabwysiadodd Russell Investments Bolisi Risgiau Cynaliadwydd newydd fel rhan o'u hymateb i ofynion y Rheoliad Datgelu Cyllid Cynaliadwy ("SFDR") newydd. Ysgrifennodd Russell Investments yn ffurfiol at eu rheolwyr buddsoddi gwaelodol, gan ymestyn rhai arferion i'w hisymgyngorwyr er mwyn cyflawni'r mewnbynnau angenrheidiol a hwyluso gofynion datgelu. Sefydlodd y neges hon y canlynol:

- Gwneud pob is-ymgyngorydd yn gyfrifol am adnabod ac ystyried risgiau cynaliadwydd a chyfleoedd buddsoddiadau a phenderfynu, yn eu barn nhw, a ydynt neu a allent fod yn ariannol berthnasol.
- Gwneud is-ymgyngorwyr yn atebol am fonitro a datgelu risgiau cynaliadwydd i Russell Investments, yn barhaus, ac fel rhan o gyfarfodydd chwarterol rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys:
- Adrodd a Llywodraethu: o ran datgelu/tryloywder ar risgiau yn gysylltiedig â newid hinsawdd.
- Amlygiad i a rheoli risg ffisegol: o ran daliadau sy'n wynebu risgiau ffisegol mwyaf newid hinsawdd (e.e. lefel y môr yn codi, llifogydd, gwres eithafol, sychder) gan gynnwys enghreifftiau o ymateb rheolwyr i risgiau o'r fath;
- Risgiau/cyfleoedd trosiant: daliadau sy'n wynebu'r risgiau mwyaf, yn gadarnhaol neu'n negyddol, i newidiadau polisi tebygol neu addasiadau technolegol.
- Metrigau: data neu ffynonellau ymchwil risg hinsawdd a ddefnyddiwyd fel rhan o'r broses o reoli'r portffolio.
- Paratoi rheolwyr ar gyfer mwy o ddiwydrwydd dyladwy gan weithwyr buddsoddi proffesiynol Russell Investments, gan gynnwys dadansoddwyr ymchwil a rheolwyr portffolio, ar weithgareddau perchnogaeth weithredol is-ymgyngorwyr;
- Annog is-ymgyngorwyr i adnabod a chydweithio gyda Russell Investments ar liniaru risgiau cynaliadwydd trwy weithgareddau stiwardiaeth ar y cyd megis pleidleisio ac ymgysylltu.

Gan fod PPC wedi dirprwyo dewisiadau rheolwyr a rheoli portffolio i Russell, mae'r newid hwn a gymerwyd gan un o'i phrif ddarparwyr yn lleihau'r risgiau y caiff y newidiadau rheoleiddiol a ddisgwyliar yn y dyfodol i fynd i'r afael â risg hinsawdd effaith sylweddol ar reoli is-gronfeydd. Hefyd, bydd datblygu'r dull o weithio yn y modd yma'n dylanwadu ar ymddygiadau cyffredinol rheolwyr asedau eraill gan fod disgwyl safonau uwch a bod angen gwybodaeth fanylach ar risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd.

Effeithiodd Covid 19 ar ystyriaethau gweithrediadol ar gyfer PPC

Cafodd pandemig Covid yn ystod y flwyddyn effaith ar sut roedd PPC yn gweithio yn bennaf. O fodel lle'r oedd cyfarfodydd Swyddogion yn aml yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, symudodd PPC yn gyflym at system o gyfarfodydd ar-lein, gan wella effeithiolrwydd cyffredinol PPC a'i defnydd o adnoddau. Hwylusodd hyn graffu mwy rheolaidd ar berfformiad is-gronfeydd.

Hefyd, er y bu PPC yn gweithio gyda Russell am sawl mis ar ddatblygu a gweithredu ei chyfres o gronfeydd incwm gosod, y bwriad yn wreiddiol oedd lansio'r cronfeydd hyn ym mis Ebrill 2020. Gan gydnabod yr ansicrwydd sylweddol a welwyd yn y farchnad ar y pryd, penderfynwyd gohirio lansio'r cronfeydd am sawl mis tan fis Awst 2020, gan sicrhau felly nad oedd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gwneud newidiadau yn ystod cyfnod o anwadalwch mawr ac amgylchiadau ansicr yn y farchnad.

Mae Covid 19 wedi dylanwadu hefyd ar y themâu ymgysylltu a fabwysiadwyd gan Robeco

Heblaw am newid hinsawdd, rhoddwyd cryn sylw i hawliau gweithwyr ar ôl i Bandemig Covid-19 waethygu amodau gwaith oedd eisoes yn anodd mewn diwydiannau a effeithiwyd waethaf gan y cyfnodau clo. Roedd gweithwyr hanfodol yn y manwerthwyr hynny oedd yn cael aros ar agor yn ystod cyfnodau clo yn fwy tebygol o wynebu risgiau cael eu heintio tra'n wynebu cyflogau isel, oriau gwaith hirach ac amodau cyflogaeth ansicr.

Er y bu cyflenwi bwyd ar-lein yn achubiaeth i lawer, nid oes gan weithwyr yn y diwydiant hwn – a elwir weithiau'n 'economi gig' – gontract cyflogaeth yn aml iawn, na chyfleusterau bargeinio ar y cyd na gwarchodaethau cymdeithasol megis cynlluniau pensiwn. Yn y diwydiant lletygarwch, cafodd gweithwyr eu heffeithio'n ddifrifol gan y camau cyfyngu, a chollodd llawer eu swyddi pan orfodwyd gwestai a bwyta i gau, heb fawr ddim i syrthio'n ôl arno. Bydd ymgysylltu Robeco yn 2021 yn edrych ar risgiau yn gysylltiedig ag arferion cyflogi yn y diwydiannau manwerthu, cyflenwi bwyd ar-lein a lletygarwch a bydd PPC yn cael rhagor o drafodaethau gyda Robeco am ba ddeilliannau a welwyd.


Hyd yn hyn , gwelwyd prif effaith PPC ar ei His-gronfeydd ei hun, yn hytrach nag ar y farchnad ehangach

Wrth fynd ati i geisio rheoli risg hinsawdd, canolbwyntiodd PPC ei hymdrechion a'i heffaith ar ei his-gronfeydd ei hun yn bennaf. Gan mai dim ond yn ystod y flwyddyn y cyflwynwyd ei pholisi risg hinsawdd, mae PPC yn credu fod y gwaith a wnaed hyd yn hyn yn gymesur. Fodd bynnag, mae PPC yn elwa o ymdrechion ymgysylltu ehangach Robeco, gan fod pwysau ei hasedau yn cyfrannu at y ddeialog y mae Robeco yn ei chael gyda chwmnïau trwy gydweithrediadau megis Climate Action 100+.

Er hynny, mae PPC yn parhau'n awyddus i wneud argraff ehangach a chafodd beth deialog gyda phartion eraill, yn bennaf er mwyn cael eu barn wrth ddatblygu ei ffordd o weithio. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda mudiadau megis ShareAction a Chyfeillion y Ddaear. Bydd PPC yn parhau i edrych ar sut all weithio gyda rhanddeiliaid eraill i ddylanwadu ar newid a mynd i'r afael â risgiau systemig.

Egwyddor 5: Mae llofnodwyr yn adolygu eu polisiau, yn aswrio eu prosesau ac yn asesu effeithiolrwydd eu gweithgareddau.

Mae gan PPC nifer o bolisiau sy'n rheoli'r ffordd y mae'n gweithredu Is-Gronfeydd ac yn ymarfer stiwardiaeth dros yr asedau mae'n eu rheoli. Darlunnir hyn yma:



O fewn y strwythur hwn, mae dwy agwedd yn bwysig i asedau PPC:

- Mae'r egwyddorion cyffredinol yn penderfynu sut mae PPC yn disgwyl i'w his-gronfeydd gael eu gweithredu ac maent hefyd yn llywio gweithgarwch PPC a'i Darparwyr Gwasanaethau;
- Mae'r tri pholisi buddsoddi yn dylanwadu ar y ffordd y mae PPC yn ymarfer stiwardiaeth.

Mae PPC wedi datblygu casgliad o bolisiau stiwardiaeth

Mae gan PPC dri pholisi ar waith sy'n rheoli ei hagwedd at stiwardiaeth. Er y bu'r polisi BC yn ei le er 2019, wrth weithredu ar yr ymrwymadau a wnaed yn y polisi hwn, mae PPC wedi gweithredu i roi dau bolisi arall ar waith fel yr amlinellir isod:

Polisi Buddsoddi Cyfrifol	Cyflwynodd PPC ei pholisi BC am y tro cyntaf yn 2019. Roedd hwn yn amlinellu credoau, amcanion ac uchelgais PPC i fynd i'r afael ag arferion Buddsoddi Cyfrifol. Diweddarwyd y polisi yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'r ffaith y cafodd nifer o'r uchelgeisiau a gyflwynwyd yn y polisi eu cyflawni.
Polisi Risg Hinsawdd	Cydnabu PPC fod risg hinsawdd yn ystyriaeth o bwys i'w Hawdurdodau Cyfansoddol a, chan adlewyrchu ymrwymiad yn ei pholisi BC ehangach, gweithiodd i ddatblygu polisi risg hinsawdd pwrpasol yn ystod y flwyddyn. Cwblhawyd y polisi hwn yn ystod 2020 a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Mae PPC wrthi'n gweithio i weithredu'r polisi hwn.
Polisi Pleidleisio	Wedi eu penodi, gweithiodd PPC gyda Robeco i gytuno polisi pleidleisio priodol. Yn hytrach na datblygu portffolio wedi'i deilwra, adolygodd PPC briodoldeb gwreiddiol polisi safonol Robeco a phenderfynodd ei fabwysiadu fel ei thempled cychwynnol. Addawodd PPC fanteisio ar brofiad y blynyddoedd cyntaf o weithio gyda Robeco a deall ei hystyriaethau BC ehangach, a bydd yn defnyddio hyn wrth lunio ei hadolygiad blynyddol cyntaf o'i pholisi pleidleisio a gynhelir yn ddiweddarach yn 2021.

Caiff polisiau PPC eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a bydd PPC yn asesu'n barhaus a oes angen unrhyw bolisiau, cofrestr neu gynlluniau ychwanegol. Mae PPC wedi monitro cydymffurfiaeth gyda pholisiau a defnyddiodd hynny i lywio gweithgarwch.

Un o'r offerynnau a ddefnyddiwyd gan PPC yw proses flynyddol o fonitro cydymffurfiaeth gyda'i pholisïau. Gan weithio gyda'i Hymgyngorydd Trosolwg, mae PPC wedi adnabod yr ymrwymïadau gwahanol a wnaed yn ei pholisi gwreiddiol, ac ym mis Rhagfyr 2020 cwblhaodd adolygiad o gynnydd yn erbyn yr 19 ymrwymiad unigol a wnaed yn y polisi, fel y nodir isod. Yn y tabl isod: mae ● yn dangos y cyflawnwyd yr ymrwymiad; mae ● yn dangos y gwnaed peth cynnydd yn erbyn yr ymrwymiad; mae ● yn dangos na wnaed unrhyw gynnydd.

Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Asesiad
Bydd PPC yn ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf yn flynyddol i benderfynu ar eu gofynion buddsoddi unigol a'u dyheadau mwy hirdymor.	●
Bydd PPC yn ystyried cyfleoedd yn deillio o gael gwell dealltwriaeth o ffactorau ESG.	●
Bydd PPC yn ymgysylltu gyda'i darparwyr i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau PPC.	●
Bydd PPC yn annog, trwy ei chyflenwyr, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â Hinsawdd.	●
Wrth ddatblygu ei hagwedd at Fuddsoddi Cyfrifol, bydd PPC yn ymgynghori ymhellach gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r bwriad o ddatblygu polisi risg hinsawdd penodol ar gyfer PPC.	●
Mae PPC yn disgwyl y bydd yr holl reolwyr buddsoddi a gyflogir yn PPC yn rhoi ystyriaeth briodol i'r holl risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau yn eu priod bortffolios.	●
Mae PPC yn disgwyl, yn yr holl amgylchiadau perthnasol, y bydd ei Rheolwyr Buddsoddi yn llofnodi'r PRI a Chod Stiwardiaeth y DU.	●
Cytunodd PPC i edrych ar y posibilrwydd o gyflogi un darparwr ymgysylltu ar yr un pryd ag yr ystyrir y posibilrwydd o gyflogi asiant pleidleisio procsi.	●
Bydd PPC yn ymgysylltu gyda'i Rheolwr Buddsoddi goddefol i ystyried sut ellir ehangu egwyddorion pleidleisio PPC i gynnwys asedau a reolir gan ei Rheolwr Buddsoddi goddefol.	●
Bydd PPC yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion am unrhyw bleidleisiau na fwriwyd mohonynt ac esboniadau pan na fwriwyd pleidleisiau yn unol â'r egwyddorion a gytunwyd bob chwarter. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion o bwys gyda'i Rheolwyr.	●
Bydd PPC yn adolygu'r egwyddorion pleidleisio ar y cyd â'i hymghynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol.	●
Bydd PPC yn mynd ati'n barhaus i adnabod ac asesu cyfleoedd cydweithio posib, gan gynnwys mentrau Buddsoddi Cyfrifol dan arweiniad buddsoddwyr.	●
Bydd PPC yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithio BC traws-gronfa pan ddaw unrhyw gyfle addas i wneud hynny.	●
Mae PPC yn bwriadu bod yn ymwybodol o, a monitro, risgiau a materion yn gysylltiedig ag ESG sydd o bwys ariannol o fewn asedau PPC. Wedi ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, Ymgynghorwyr a'r Rheolwyr Buddsoddi, bydd PPC yn datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer ei phortffolios.	●
Mae PPC yn mynnu fod cymhwysedd Buddsoddi Cyfrifol yr holl Reolwyr Buddsoddi a benodir yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ar y cyd â'r partiön perthnasol, bydd PPC yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Rheolwyr Buddsoddi.	●
Yn flynyddol, bydd PPC yn llunio a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth yn manylu ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd.	●
Bydd PPC yn sicrhau y bydd o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn edrych yn uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol.	●

Bydd PPC hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn ei chredoau BC a'i dulliau monitro a mesur.

Bydd PPC yn adolygu i ba raddau y mae pob parti yn cadw at y polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad fel rhan o'u hadroddiad stiwardiaeth a llywodraethu blynyddol.

Nododd PPC y cafwyd peth cynnydd o leiaf ar bob un o'i hymrwymiaid polisi adeg yr adolygiad er bod y cynnydd ar lawer o'r ymrwymiaid yn parhau. Mewn sawl achos, roedd hyn yn ganlyniad y cyfnod amser y disgwylwyd i gamau gael eu cymryd. Nodwyd pum cam tymor byr o'r adolygiad hwn, sef:

- Cychwyn adrodd ar Is-grŵp BC a risg hinsawdd;
- Cwblhau Gofynion Adrodd Pleidleisio ac Ymgysylltu;
- Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau ESG/ BC isaf-derbyniol;
- Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar eu huchelgeisiau hinsawdd;
- Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol PPC.

Mae PPC yn nodi ei bod, erbyn mis Medi 2021, wedi cwblhau'r holl gamau hyn a bod cyflwyno a chyhoeddi'r adroddiad yn cyflawni'r cam olaf. Mae PPC ers hynny wedi penderfynu alinio'r adolygiad o gynnydd yn erbyn ei hymrwymiaid gyda diwedd y flwyddyn, ac mae hynny'n cynnig gwell aliniad hefyd gyda gofynion adrodd ar ei Chod Stiwardiaeth i'r dyfodol.

Mae PPC yn sicrhau bod ei darparwyr yn gwreiddio stiwardiaeth yn y gwaith o reoli Is-Gronfeydd

Fel y nodwyd, mae PPC yn dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu ei His-gronfeydd i Link a Russell fel partneriaid strategol. Mae PPC yn disgwyl i'r partïon hyn roi ystyriaeth i risgiau ESG fel rhan o'u dadansoddiad buddsoddi a'u proses gwneud penderfyniadau. Mae PPC hefyd yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi allu dangos a thystio i safonau uchel o ran eu gwaith yn integreiddio ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol.

Cefnogir a datblygir polisiâu ac arferion Russell Investments ynghylch stiwardiaeth integredig gan nifer o grwpiau ffurfiol o fewn eu sefydliad, ac maent yn gyfrifol am werthuso a gwneud penderfyniadau. Mae'r endidau hyn yn crynhoi at ei gilydd arbenigwyr ar draws disgyblaethau buddsoddi, ac maent yn llywio ymchwil rheolwyr, rheoli portffolios, arferion perchnogaeth weithredol a diwydrwydd dyladwy gweithrediadol. Darlunnir hyn yn y diagram isod.



Gan ddefnyddio credoau craidd ar fuddsoddi cyfrifol a newid hinsawdd, mae gan Russell bolisiâu ffurfiol ar fuddsoddi cyfrifol, risgiau hinsawdd a chynaliadwyedd, fel yr amlinellir isod:

- **Polisi Buddsoddi Cyfrifol:** Polisi Russell yw, lle bynnag y bo'n berthnasol, ymgorffori buddsoddi cyfrifol ym mhrosesau gwerthuso rheolwyr buddsoddi, rheoli portffolios ac wrth weithredu datrysiadau perchnogol, yn ôl dymuniadau cleientiaid.
- **Polisi Newid Hinsawdd:** Polisi Russell yw ymchwilio, mesur, adrodd ar ac ystyried risgiau a chyfleoedd newid hinsawdd fel rhannau annatod o arfer buddsoddi a pherchnogaeth weithredol, lle bynnag y bo'n berthnasol, a'u gweithgarwch busnes yn fwy cyffredinol. Mae'r camau a gymerodd Russell, y metrigau a adroddwyd ac ystyriaeth o risgiau a chyfleoedd hinsawdd oll yn cael eu hintegreiddio yn ymchwil a detholiadau is-ymgynghorwyr, rheoli portffolios, cyngor, pleidleisio procsi, ymgysylltu â chyfranddalwyr a gwaith o ddydd i ddydd.
- **Polisi Risg Cynaliadwyedd:** Polisi Russell yw integreiddio risgiau cynaliadwyedd yn eu datrysiadau buddsoddi trwy adnabod a rheoli risgiau perthnasol ym mhroses adolygu rheolwyr buddsoddi a thrwy weithredu datrysiadau portffolio.

Mae'r polisiâu hyn yn cyfrannu at y ffordd y mae Russell yn rheoli asedau ar ran PPC, ac mae PPC yn craffu ar y portffolios y mae PPC yn eu hadeiladu ac yn profi'r prosesau a ddefnyddir. Fel o dan Egwyddor 4, mae Russell wedi adolygu a diweddarau eu Polisi Risg Cynaliadwyedd eu hunain yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu gofynion SFDR.

Penododd PPC ymgynghorydd trosolwg i ddarparu cymorth a sicrwydd

Penodwyd Hymans Robertson yn Ymgynghorwyr Trosolwg ar gyfer PPC. Mae rôl Hymans Robertson yn cwmpasu trosolwg a chynghor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau'r gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd y GS a'r CBLI.

Un o rolau parhaus yr Ymgynghorydd Trosolwg fydd asesu rheolaeth yr is-gronfeydd a phrofi'r prosesau a ddefnyddir, fel yr amlinellir uchod. Cychwynnodd yr adolygiad cyntaf o'i fath ar ôl diwedd blwyddyn yr adroddiad, ond cyfeirir ato yn adroddiad 2021/22.

Mae gwaith adrodd ar stiwardiaeth PPC ei hun yn gam sy'n cael ei ddatblygu yn ystod 2021/22

Un o ofynion allweddol proses stiwardiaeth PPC ei hun yw datblygu ei hadroddiadau ei hun i randdeiliaid. Gweithiodd yr Is-grŵp BC i ddatblygu adroddiadau ar yr ESG a nodweddion risg hinsawdd is-gronfeydd ac mae'n bwriadu rhadadu'r wybodaeth hon i lawr i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu llunio'n annibynnol ar yr adroddiadau a ddarperir gan y rheolwr buddsoddi, er mwyn gwirio'r wybodaeth a ddarperir mewn ffyrdd eraill. Mae Robeco hefyd yn darparu adroddiadau chwarterol ar weithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu a gafodd eu rhannu gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae PPC yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu'r wybodaeth a ddarperir a sicrhau bod ei rhanddeiliaid yn derbyn gwybodaeth sy'n berthnasol iddyn nhw. Bydd PPC yn parhau i ymgysylltu gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu adroddiadau priodol a bydd yn ceisio adborth ar hyn i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

2 Proses Fuddsoddi

Egwyddor 6: Mae llofnodwyr yn rhoi ystyriaeth i anghenion cleientiaid a buddiolwyr ac yn rhoi gwybod iddynt am eu gweithgareddau a deilliannau eu stiwardiaeth a buddsoddiadau.

Mae PPC yn bodoli i ddarparu datrysiadau buddsoddi i Awdurdodau Cyfansoddol, pob un ohonynt yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLLL), trefniant pensiwn budd penodedig ag iddo orwelion buddsoddi hirdymor. Er bod y buddion sylfaenol a ddarperir gan yr CPLLL yn gyffredin i bawb, mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth, gan roi ystyriaeth i'w polisiau eu hunain, eu sefyllfa ariannol a'u haelodaeth waelodol.

Mae lansio is-gronfeydd wedi diwallu anghenion Awdurdodau Cyfansoddol yn uniongyrchol

Lansiodd PPC wyth Is-Gronfa i ddiwallu anghenion buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r tabl isod yn disgrifio manylion asedau o fewn y trefniant cyfuno fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2021.

Strategaeth	ACau sy'n cymryd rhan	Cyfanswm £m
Ecwiti: Twf Byd-eang	4	3,061
Ecwiti: Cyfleoedd Byd-eang	5	2,624
Ecwiti: Cyfleoedd y DU	2	674
Incwm Gosod: Credyd Byd-eang	4	791
Incwm Gosod: Llywodraeth Fyd-eang	2	527
Incwm Gosod: Credyd Aml-Asedau	5	714
Incwm Gosod: Credyd y DU	1	551
Incwm Gosod: Bondiau Ad-daliad Absoliwt	3	456
Wedi'i gyfuno		9,398
Goddefol		5,233
Heb ei gyfuno		7,003
Cyfanswm		21,634

Roedd lansio'r is-gronfeydd Incwm Gosod yn amcan allweddol i PPC yn ystod 2020/21 ac ym misoedd Awst a Medi 2020, lansiodd PPC bump is-gronfa Incwm Gosod. Cafodd cynllun a natur yr is-gronfeydd eu pennu gan anghenion a gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae pob Awdurdod yn defnyddio o leiaf un o'r is-gronfeydd, gan ddangos y llwyddodd PPC i ddatblygu cyfres o ddatrysiadau buddsoddi hynod ddeniadol ar gyfer ein prif randdeiliaid. Gan ystyried yr asedau goddefol a reolir gan BlackRock, caiff mwy na dau draean o asedau CPLLL Cymru eu rheoli trwy PPC erbyn hyn.

Mae PPC yn cydnabod fod BlackRock yn defnyddio polisi pleidleisio gwahanol ar gyfer ecwitiâu a reolir yn oddefol o gymharu â'r un a ddefnyddir ar gyfer asedau ecwiti PPC a reolir yn weithredol. Mae PPC yn bwriadu trafod ymhellach gyda BlackRock y potensial o ddatblygu'r trefniant hwn er mwyn defnyddio un polisi pleidleisio ar draws yr holl asedau ecwiti. Nid yw PPC yn ymwybodol o unrhyw wro arall o bwys oddi wrth ei pholisiau.

Gan edrych ymlaen, bu PPC yn gweithio gyda'i hymgyngorwyr a'r Awdurdodau Cyfansoddol i bennu rhagor o flaenoriaethau cronedig eraill ac mae wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio lansio Is-gronfeydd Ecwiti Marchnadoedd Datblygol ac Ecwiti Thematig Byd-eang Cynaliadwy. Hefyd, mae PPC yn datblygu ffordd o hwyluso buddsoddiadau mewn asedau marchnadoedd preifat a real.

Mae Awdurdodau Cyfansoddol wedi cyfrannu at ddatblygu is-gronfeydd PPC

Dros y flwyddyn, mae PPC wedi gweithio ar ddau ddatblygiad o fewn ei his-gronfeydd Ecwiti Byd-eang, a symbylwyd trwy ddeall gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol a'i hymgysylltu ei hun gyda'i darparwyr. Canolbwyntiodd y ddau ddatblygiad ar fynd i'r afael â risg hinsawdd, sy'n flaenoriaeth allweddol i PPC.

(1) Newid un o elfennau gwaelodol y Gronfa Twf Byd-eang

Mae Is-gronfa Twf Byd-eang yn defnyddio tair strategaeth ecwiti byd-eang sylfaenol, ac un ohonynt yw strategaeth Alpha Byd-eang a reolir gan Baillie Gifford. Yn ystod y flwyddyn, bu PPC yn gweithio gyda Baillie Gifford i edrych ar ffordd bosib o ddatblygu'r strategaeth oedd yn rhoi mwy o sylw uniongyrchol i faterion trosiant hinsawdd. Yn benodol, mae Baillie Gifford wedi ymestyn eu proses ar gyfer rheoli strategaeth Alpha Byd-eang i gynnwys sgriniau meintiol ac ansoddol ar gyfer cwmnïau nad ydynt o reidrwydd wedi alinio â gofynion mwy hirdymor Cytundeb Paris.

Yn dilyn trafodaeth gyda Baillie Gifford a'r Awdurdodau Cyfansoddol hynny oedd wedi buddsoddi yn y strategaeth Twf Byd-eang, cytunwyd y byddai'r datrysiad diwygiedig yn diwallu anghenion PPC yn well a chymeradwywyd y newid i'r elfen hon o'r strategaeth ym mis Mawrth 2021, ond caiff ei weithredu ym mis Tachwedd 2021.

(2) Cyflwyno troshaen garbon isel i'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang

Gan gydnabod yr angen i leihau ôl-troed carbon ei strategaeth ecwiti fel ffordd o fynd i'r afael â risgiau hinsawdd, gweithiodd PPC gyda Russell i wneud addasiad i'w Chronfa Cyfleoedd Byd-eang bresennol er mwyn gwneud gostyngiad o 25% wedi'i dargedu yn ei hól-troed carbon a'i hamlygiad i weddillion tanwydd ffosil o gymharu â'i meincnod (yr MSCI All Country World Index). Bydd y portffolio diwygiedig hefyd yn eithrio cwmnïau sy'n defnyddio glo i gynhyrchu refeniw.

Mae PPC yn defnyddio seilwaith Gweithredu Portffolio Ehangach (EPI) Russell Investments er mwyn cyflawni ei thargedau datgarboneiddio. Mae EPI yn manteisio ar broses fasnachu a rheoli portffolio ganolog ac mae Russell Investments yn gyfrifol am weithredu strategaethau buddsoddi rheolwyr cronfeydd gwaelodol PPC. Gyda'r fframwaith hwn, gall PPC elwa o gael mwy o reolaeth a phersonoleiddio ynghylch datgarboneiddio ac amcanion eraill yn gysylltiedig ag ESG. Mae EPI hefyd yn ceisio gwneud arbedion masnachu trwy ostyngiadau sylweddol mewn gweithgarwch masnachu.

Unwaith eto cafwyd mewnbwn gan nifer o randdeiliaid wrth wneud y newid hwn, er mwyn sicrhau bod PPC yn deall anghenion Awdurdodau Cyfansoddol, a gweithio gyda Russell i ddeall sut ellid gweithredu newid ac yn y pendraw bod yn fodlon mabwysiadu datrysiad blaengar. Roedd PPC yn falch iawn y cafodd y dull hwn gydnabyddiaeth yng Ngwobrau LAPF 2020.

Mae PPC wedi datblygu ei strategaeth gyfathrebu gan gydnabod yr holl randdeiliaid

Bu gwella cyfathrebu yn ffrwd gwaith allweddol i PPC yn ystod y 12 mis diwethaf. Gyda'r bwriad o geisio sicrhau bod ein holl gyfathrebu â'n rhanddeiliaid yn ddiddorol a hygyrch, rydym wedi cynnal gweithdai cyfathrebu i edrych ar ddulliau cyfathrebu gwahanol a'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â'n cynulleidfau. Yn dilyn y gweithdai, lluniodd PPC ei [Pholisi Cyfathrebu <https://www.walespensionpartnership.org/media/ulkcj0te/wpp-communication-policy.pdf>](https://www.walespensionpartnership.org/media/ulkcj0te/wpp-communication-policy.pdf) a lansiodd ein tudalen LinkedIn.

Trwy'r polisi hwn, mae PPC wedi adnabod nifer o randdeiliaid allanol, ar ben yr Awdurdodau Cyfansoddol ac aelodau gwaelodol y Gronfa Bensiwn y mae'n rheoli arian ar eu rhan, y mae'n dymuno cyfathrebu â nhw. Mae'r rhanddeiliaid allanol hyn yn cynnwys Llywodraeth, Undebau, y cyfryngau a Chyrff Anllywodraethol.

Mae PPC yn credu mewn bod yn agored a thryloyw yn ogystal ag mewn ymgysylltu'n rheolaidd gyda'i phrif randdeiliaid. I'r perwyl hwnnw bydd PPC yn sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gael i'r cyhoedd trwy ffrwd gweddarllediad byw. Bydd papurau cyfarfodydd hefyd yn cael eu darparu'n gyhoeddus. Hefyd, cynhelir dyddiau ymgysylltu rheolaidd gyda'r Bwrdd Pensiwn Lleol er mwyn meithrin ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid.

Mae PPC yn casglu adborth rheolaidd er mwyn gallu datblygu polisiau

Fel yr asiant cyfuno, mae PPC yn ymrwmo i ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chasglu adborth ar nifer o bynciau gwahanol. Yn ystod y flwyddyn, trefnodd PPC ymgynghoriad ar faterion BC a risg hinsawdd oedd yn gofyn am adborth ar nifer o faterion oedd yn cynnwys y canlynol:

- Amcanion hinsawdd a nodau sero net;
- Polisiau eithriol, gan gynnwys ystyried gwaredu;
- Ystyriaethau Benthycia Stoc a Phleidleisio;
- Safonau ESG/ Risg Hinsawdd isaf-derbyniol;
- Datblygiadau o ran mandad i'r dyfodol.

Trwy'r broses hon, a gaiff ei hail-adrodd yn flynyddol, llwyddodd PPC i gael gwell dealltwriaeth o beth mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn ei ddisgwyl o'r Gronfa o ran materion BC a Risg Hinsawdd. Er enghraifft, er bod y polisi Risg Hinsawdd yn cael ei ystyried yn briodol, teimlwyd fod angen i'r polisi ddatblygu er mwyn adlewyrchu'n well y cyfleoedd buddsoddi cadarnhaol sy'n deillio o'r 'trosiant carbon isel'. O gofio mai un o rolau PPC yw sicrhau bod ei pholisiau yn cael eu gweithredu'n iawn, bydd y newid a wnaed i'r polisi Risg Hinsawdd wedi diwedd y flwyddyn yn effeithio ar gynllun gwaith PPC ar gyfer 2021/22 ac yn dylanwadu ar ddatblygu is-gronfeydd i'r dyfodol.


Mae PPC yn gweithio i ddatblygu'r gwaith o gyfathrebu ei gweithgarwch stiwardiaeth

Er bod ganddi strategaeth gyfathrebu glir yn ei lle, mae PPC yn cydnabod yr angen i gyfathrebu ei gweithredoedd gyda'r rhanddeiliaid hyn. Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd PPC i adeiladu ei gwaith adrodd mewnol i sicrhau bod ystod eang o wybodaeth stiwardiaeth ar gael i'r Is-grŵp BC er mwyn gallu craffu ar weithgarwch. Er bod hyn wedi golygu fod gwybodaeth am weithgarwch stiwardiaeth yn cael ei darparu i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol trwy eu haelodaeth o'r Is-grŵp BC, mae PPC yn cydnabod mai'r cam olaf yn y broses wedyn yw rhaeadru gwybodaeth ar y gweithgareddau hyn i'r Awdurdodau Cyfansoddol gwaelodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wedi diwedd y flwyddyn, mae PPC wedi dechrau ymgysylltu gyda'i rhanddeiliaid i benderfynu pa wybodaeth maen nhw ei hangen i ddiwallu anghenion eu Cymunedau eu hunain a'r gofynion adrodd, ac er mwyn caniatáu ystod ehangach o her yn ôl i PPC. Mae PPC wedi ymrwmo i ddechrau adrodd i Awdurdodau Cyfansoddol yn ystod blwyddyn 2021/22.

Egwyddor 7: Mae llofnodwyr yn mynd ati'n systematig i integreiddio stiwardiaeth a buddsoddi, gan gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol perthnasol, a newid hinsawdd, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Ym model gweithrediadol PPC, caiff ystyriaeth i faterion ESG ei hintegreiddio mewn prosesau mewn ffyrdd gwahanol, fel y gwelir yn y darlun isod. Mae PPC wedi partneru gyda Link, Russell a Robeco er mwyn gweithredu ei pholisïau is-gronfeydd a stiwardiaeth. Mae PPC yn gyfrifol am ddatblygu cronfeydd a pholisïau priodol ac am gymryd trosolwg o'i phartneriaid.



Ceir manylion am sut mae polisïau stiwardiaeth yn cael eu hintegreiddio yn ein hymateb i Egwyddorion 9 a 12 a chanolbwyntiwn yma ar integreiddio yn rheolaeth barhaus yr is-gronfeydd.

Mae Russell yn integreiddio ystyriaeth o faterion ESG yn eu gwerthusiad o gynhyrchion rheolwyr


Wrth adeiladu is-gronfeydd sy'n bodloni ein gofynion, manteisiwn ar arbenigedd Russell a'u hasesiad o'r strategaethau buddsoddi gwahanol sy'n ffurfio pob un o is-gronfeydd PPC. O fewn y fframwaith asesu hwn, mae Russell yn ystyried:

- **Ymrwymiad ESG**, ceisio sicrhau bod adnoddau ESG yn gadarn a'u bod wedi alinio gyda'r broses fuddsoddi; mae gan unigolion sy'n gyfrifol am ESG brofiad perthnasol ac maent yn fedrus, ac mae amrywiol ffynonellau ac offerynnau data o ansawdd uchel ar gael i wneuthurwyr penderfyniadau ar fuddsoddiadau.
- **Ystyried ESG**, mae ymwybyddiaeth gref o effaith risg ac ad-daliad ESG yn amlwg. Mae ehangder a dyfnder persbectif yn rhagori ar gronfeydd tebyg eraill ac mae mewnwelediadau yn deillio o ymchwil sylfaenol ac yn cael eu gwahaniaethu.
- **Gweithredu ESG**, caiff mewnwelediadau ESG eu trosi'n effeithiol a chysyn yn safleoli portffolios. Gall y rheolwr ddangos yn glir sut mae safleoli portffolios yn adlewyrchu rheolaeth y gyrwyr risg ac ad-daliad ESG perthnasol.
- **Perchnogaeth Weithredol**. Mae tryloywder, ansawdd a hyd yr ymgysylltu gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion ESG yn rhagori'n gyson ar gronfeydd tebyg. Caiff mesuriadau

Ilwyddiant eu datgan yn glir ac maent yn briodol. Lle'n berthnasol, ceisir gwneud defnydd gwybodus o brocsïau.


Er bod PPC wedi penodi Robeco i gyflawni cyfrifoldebau perchnogaeth dros ei daliadau, mae hyn yn ategu at yr ymgysylltu allai ddigwydd beth bynnag gan y rheolwyr buddsoddi gwaelodol ymhob portffolio.

Darluniad o fframwaith gwerthuso Russell



Fel y nodwyd yn y polisi buddsoddi cyfrifol, mae PPC yn disgwyl y bydd yr holl reolwyr buddsoddi a gyflogir o fewn PPC yn rhoi ystyriaeth briodol i'r holl risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau yn eu priod bortffolios. Mae Russell yn ystyried hyn yn rhan o'u proses fuddsoddi ac adroddir arno'n flynyddol i PPC.

Mae Russell yn manteisio ar eu diwydrwydd dyladwy parhaus sy'n ystyried adolygiadau lefel cynnyrch o'r strategaeth, y gweithwyr buddsoddi proffesiynol allweddol sydd ynghlwm wrth y strategaeth a dadansoddiad meintiol o'r cynnyrch. Cyfunir hynny gydag adolygiad lefel cwmni blynyddol o alluoedd ESG rheolwyr, ac mae hyn oll yn cyfrannu at sgôr ESG ar gyfer pob rheolwr (ar raddfa o 1-5, 5 yw'r uchaf). Ar gyfer Is-gronfeydd PPC, mae'r siart isod yn cynnig manylion sgoriau'r rheolwyr gwaelodol:



Mae sgôr o 4 allan o 5 yn golygu fod Russell yn credu fod ymrwymiad, ystyriaeth i a dull gweithredu risgiau a chyfleoedd ESG y cwmni yn uwch na chwmnïau cyffelyb. Fodd bynnag, maent yn parhau i fonitro a phrofi agwedd rheolwyr at gynaliadwyedd yn ystod cyfarfodydd ymchwil diwydrwydd dyladwy blynyddol a thrwy adolygiadau chwarterol o gronfeydd.

Gall ffactorau ESG fod yn allweddol mewn penderfyniadau buddsoddi pan mae materion ESG yn hynod berthnasol. Mae blaenoriaethau ansawdd Russell yn arwain at bortffolio ag iddo sgoriau ESG da. Dros y flwyddyn ddiwethaf, trwy eu diwydrwydd dyladwy, sylwodd Russell ar a chofnododd well integreiddio ESG gyda rheolwyr gwaelodol, ac yn enwedig felly:

- Cysylltiadau mwy amlwg i benderfyniadau prynu/gwerthu/cadw, a chofnod cliriach o dystiolaeth mewn trywydd archwilio;
- Datblygwyd systemau TG er mwyn derbyn data ESG;
- Mwy o ymgysylltu gyda chwmnïau i'w helpu i ddeall sut i adrodd yn effeithiol ar eu materion perthnasol.

Ar gyfer rheolwyr sy'n cael sgôr o 2, mae PPC wedi gofyn am esboniad gan Russell ynghylch eu barn ar bob rheolwr a'r rhesymau pam maen nhw'n cael eu cynnwys mewn portffolios.

- Mae Rheolwr X yn rheolwr meintiol cryf ei argyhoeddiad yn ecwitiai UDA. Er bod gan Russell olwg ffafriol o'u tîm a'u proses fuddsoddi gyffredinol, maent wedi barnu fod arferion ESG y rheolwyr yn is na'r cyfartaledd yn ecwitiai UDA a hynny'n bennaf oherwydd (1) nad oes ganddynt elfen flaengar er mwyn adnabod risgiau a chyfleoedd ESG perthnasol a (2) fod perchnogaeth weithredol ac ymdrechion ymgysylltu o ran ESG yn gyfyngedig. Bu ymrwymiad y rheolwr a'u hystyriaeth o ESG yn rhesymol ar gyfer strategaeth feintiol, a hyd yn hyn maent wedi gweithredu signalau yn gysylltiedig â llywodraethu sy'n ychwanegu ac ategu at signalau eraill yn eu model meintiol. Er bod ganddynt olwg anffafriol ar agwedd y rheolwyr, mae Russell yn barnu fod ESG ychydig yn llai perthnasol i'r strategaeth o gofio ei phwyslais systematig, ôl-edrychol.
- Mae Rheolwr Y yn rheolwr meintiol cryf yng ngofod ecwitiai'r DU. Mae Russell yn credu, fodd bynnag, eu bod yn is na'r cyfartaledd o gymharu â chyd rheolwyr yn ecwitiai'r DU wrth ymgorffori ESG yn eu proses. Er bod eu proses yn eu harwain yn gyffredinol at fuddsoddiadau mewn busnesau a chanddynt stiwardiaeth lywodraethu dda, nid yw'r rheolwyr portffolio yn cynnwys ffactorau cynaliadwyedd, amgylcheddol, cymdeithasol na llywodraethu yn eu sgriniau na'u harferion adeiladu portffolio mewn ffordd amlwg neu fel mewnbnw uniongyrchol. Mae Russell yn credu fod natur systematig a chynhenid ôl-edrychol y broses fuddsoddi yn gwneud ESG ychydig yn llai perthnasol i'r strategaeth hon nag y mae i rai cyd gwmnïau ecwitiai'r DU - yn benodol felly'r sawl y mae eu prosesau yn galw am farn fwy goddrychol a gorwelion buddsoddi hirach.

Mae PPC wedi derbyn yr ymresymiad a gynigiwyd gan Russell, gan nodi yn y ddwy sefyllfa fod yr agwedd waelodol yn fwy systematig ei natur. Mae PPC yn nodi hefyd fod Russell yn mynd ati o ddifrif i ymgysylltu â phob rheolwr er mwyn ceisio gwella arferion. Bydd PPC yn parhau i fonitro nodweddion gwaelodol y portffolios y mae Russell yn eu rheoli, a sgoriau ESG y rheolwyr a gyflogir.

Mae PPC wedi ystyried sut i wella'r gwaith o integreiddio ystyriaethau ESG


Un o'r gwelliannau pwysicaf wrth integreiddio ystyriaethau ESG dros y flwyddyn oedd y ddeialog barhaus ar sut i gyflawni nodau hinsawdd Awdurdodau Cyfansoddol. Fel y nodwyd yn Egwyddor 6, un o'r prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn oedd datblygu'r broses ar gyfer rheoli'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang trwy integreiddio EPI. Mae PPC yn credu fod hyn yn dangos sut ellir gwella prosesau i ddiwallu anghenion datblygol yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Egwyddor 8: Mae llofnodwyr yn monitro a gwneud rheolwyr cyfrifon a/neu ddarparwyr gwasanaethau yn atebol.

Wrth weithredu model wedi'i allanoli, mae PPC yn gyfrifol am graffu'n uniongyrchol ar ei phrif ddarparwyr, ac mae Russell wedyn yn gyfrifol am gymryd trosolwg uniongyrchol ar y rheolwyr gwaelodol a gyflogir yn yr Is-gronfeydd. Ni chafodd y berthynas rhwng PPC a Robeco ond ei sefydlu yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn ac fe weithredwyd prosesau dros y cyfnod hwn fel yr adroddwyd yn barod. Fodd bynnag, cafodd Robeco a'r penderfyniadau a gymerwyd eu herio sawl gwaith yn barod, fel yr amlinellir yn Egwyddorion 9 a 12.


Mae PPC yn cymryd trosolwg o brosesau Russell ar stiwardiaeth ac integreiddio ESG

Dros y flwyddyn, gweithiodd PPC i adeiladu ei gallu i graffu ar brosesau Russell ynghylch stiwardiaeth ac asesu'n annibynnol nodweddion ei His-gronfeydd, gan gynnwys deall ar ba sail y caiff sgoriau ESG eu priodoli. Caiff yr adroddiadau hyn a'r materion a drafodir eu darlunio isod:



Metrigau hinsawdd

- Lefelau allyriadau
- Perchnogaeth allyriadau
- Amlygiad i asedau allai fod mewn perygl o gael eu colli
- Ymgysylltu â throsiant carbon isel



Metrigau ESG

- Ansawdd rheoli risgiau ESG
- Tueddiadau o ran rheoli risgiau ESG
- Amlygiad i faterion dadleuol

Er bod cynnwys y dadansoddiad hwn yn dal i gael ei ddatblygu ar ddiwedd y flwyddyn, y bwriad yw caniatáu asesiad ar lefel fanwl iawn (rheolwr is-gronfa). Bydd y craffu hwn yn ei dro yn cyfrannu at y ddeialog gyda Russell ac yn darparu blaenoriaethau ymgysylltu ar draws daliadau portfolio ar gyfer Robeco.

Un o'r rolau a gyflawnir gan yr Is-grŵp BC yw cynnal adolygiad blynyddol o'r polisïau a'r broses sydd gan Russell ar waith, yn unol â chynllun gwaith blynyddol PPC. Fel y nodwyd yn Egwyddor 5, cynhelir hefyd adolygiad ar wahân gan yr Ymgynghorydd Trosolwg. Cafodd yr Is-grŵp BC ei gyfarfod cyntaf gyda Russell ym mis Ionawr 2021, a'r amcan oedd ategu at y drafodaeth barhaus sy'n digwydd rhwng PPC a Russell a ffocws ar dystio'r broses a ddefnyddir. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ar ffurf trafodaeth strwythuredig wrth i Russell ymateb i gyfres o gwestiynau, gan adeiladu dealltwriaeth yr Is-Grwpiau o ddull gweithio Russell.

Y casgliad o'r broses hon oedd yr angen am fwy o ddata ac enghreifftiau o weithredu'r broses i sicrhau y gall PPC gyflawni ei hymrwymadau polisi ehangach, ac mae darparu sgoriau ESG rheolwyr yn un enghraifft o hyn. Bydd PPC yn gweithio gyda Russell yn ystod 2021/22 i roi mwy o sylw i hyn ac i roi mwy o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar waith y gellir eu hasesu.

Mae PPC yn elwa o'r trosolwg annibynnol ar ei darparwyr

Fel y nodwyd, mae PPC hefyd yn cyflogi Hymans Robertson yn ymgynghorydd trosolwg. Rôl Hymans yw darparu cyngor a her annibynnol ar ddatblygu a gweithredu strategaethau a ddatblygwyd gan Russell. Un enghraifft o hyn oedd datblygu datrysiad marchnadoedd preifat ar gyfer PPC, lle y cytunwyd yn y pendraw y dylid cynnal adolygiad mwy cyflawn o'r farchnad ar gyfer darparwyr posib.

3 Ymgysylltu

Egwyddor 9: Mae llofnodwyr yn ymgysylltu gyda chyhoeddwr i gynnal neu gynyddu gwerth asedau

Mae PPC yn cydnabod manteision ehangach ymgysylltu ar nifer o faterion thematig ac mae wedi penodi Robeco i wneud gwaith ymgysylltu ar ei rhan. Cychwynnodd y berthynas hon yn ystod y flwyddyn a dechreuodd Robeco gynrychioli PPC yn ei deialog gyda'r gwahanol gwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt. Mae Robeco yn dilyn proses pum cam yn eu hymgysylltu fel y nodir isod:



Gan ei bod yn gleient newydd yn ystod y flwyddyn, nid oedd PPC yn gallu cynnig mewnbwn i themâu ymgysylltu 2020 er bod Robeco yn gallu adnabod yr asedau oedd yn cael eu dal yn is-gronfeydd PPC a sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi mewn gweithgarwch ymgysylltu.

Rhoddodd PPC fewnbwn i'r adolygiad blynyddol o themâu ymgysylltu

Mae Robeco yn cynnal proses flynyddol i gasglu syniadau ar gyfer ymgysylltu thematig oddi wrth eu cleientiaid, ac mae PPC yn cael y cyfle i gynnig mewnbwn i'r broses hon, fel y dangosir yn y darlun isod:



Cymerodd aelodau'r Is-grŵp BC ran mewn trafodaeth gyda Phanel Cleientiaid CPLLL a Phanel Pob Cleient yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnig mewnbwn ar feysydd o ddiddordeb i PPC a'i Hawdurdodau Cyfansoddol. Prif ffocws PPC adeg ei sefydlu oedd Risg Hinsawdd oedd yn cael ei gydnabod yn thema gan Robeco, er bod PPC hefyd yn cefnogi'r themâu eraill a drafodwyd, gan gynnwys llygredd morol gan fod Cymru yn genedl arfordirol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a adlewyrchir yng ngweithgarwch ymgysylltu Robeco yn ystod 2021 wedi i'r broses hon ddod i ben. Y themâu a amlygir yw'r rhai y bydd PPC yn rhoi ffocws arbennig ar y deilliannau a gyflawnwyd ynddynt.

Amgylcheddol	Rheolaeth Gymdeithasol
Bioamrywiaeth	Arloesi Digidol mewn gofal iechyd
Gweithredu ar hinsawdd	Diogeledd bwyd
Trosiant hinsawdd Sefydliadau Ariannol	Cyflog byw yn y diwydiant dillad
Rheolaeth Cylch Bywyd cloddio am fwynau	Effaith Gymdeithasol Deallusrwydd Artiffisial
Allyriadau carbon sero net	Effaith Gymdeithasol peiriannau chwarae
Lleihau gwastraff byd-eang	gemau
Plastigau defnydd untro	Rheolaeth gymdeithasol gadarn
Rheolaeth amgylcheddol gadarn	
Llywodraethu Corfforaethol	Materion Dadleuol Bydeang
Llywodraethu corfforaethol mewn	Ymgysylltu â materion dadleuol byd-eang
marchnadoedd datblygol	Olew Palmwydd
Safonau llywodraethu corfforaethol yn Asia	
Diwylliant a rheoli risgiau ym myd bancio	
Seibrddiogeledd	
Llywodraethu da	
Cyflogau cyfrifol i brif swyddogion	

Roedd y themâu ymgysylltu newydd ar gyfer 2020/21 yn cynnwys:

- Bioamrywiaeth, fydd yn canolbwyntio ar gwmnïau a chanddynt gadwyni cyflenwi sy'n delio â nwyddau risg uchel fel coco, rwber naturiol, soi, cig eidion, a choed a mwydion trofannol. Yr amcan yw gwella arfer prynu a chynhyrchu cwmnïau;
- Allyriadau carbon sero net, sy'n adlewyrchu ffocws hinsawdd PPC ei hun: Mae hyn yn canolbwyntio ar bedwar diwydiant sydd ymhlith y cyfranwyr mwyaf o allyriadau carbon yn y byd (olew a nwy, cyfleustodau, sment, a dur) gyda'r amcan o sicrhau teithio datgarboneiddio esmwyth o fewn y thema hon.

Mae PPC yn ymwybodol o'i hangen i adeiladu ei disgwyliadau ei hun o raglen ymgysylltu Robeco a ffyrdd o ddarparu mewnbyn i'r themâu y mae Robeco yn ymgysylltu'n weithredol ynddynt. Bydd hwn yn faes gweithgarwch yn ystod 2021/22.

Mae PPC yn adolygu a thrafod gweithgarwch ymgysylltu Robeco yn rheolaidd

Mae Robeco yn darparu adroddiad chwarterol i PPC ar y cynnydd yn erbyn pob un o'r themâu ymgysylltu. Mae hyn yn darparu asesiad meintiol o'r cynnydd a wnaed yn ogystal â manylion ar lefelau gweithgarwch cyffredinol. Dros y cyfnod y bu Robeco yn ymgysylltu ar ran PPC, cynhaliwyd mwy na 400 o ymgysylltiadau gan Robeco gyda chwmnïau y mae PPC wedi buddsoddi ynddynt.


Maes Thematig	Nifer yr ymgysylltiadau yn ystod 2020/21
Amgylcheddol	155
Rheolaeth Gymdeithasol	117
Llywodraethu Corfforaethol	99
Materion Dadleuol Byd-eang	33
Cyfanswm	404

Mae PPC yn cydnabod nad yw cynnydd yn cael ei fesur gan nifer yr ymgysylltiadau a wneir, ond yn hytrach trwy gyflawni amcanion pob ymgysylltiad. Mae Robeco yn cefnogi PPC i asesu'r cynnydd hwn trwy fwy o adroddiadau naratif ar y gweithgarwch a gynhaliwyd. Mae hyn yn helpu cael dealltwriaeth o'r ymgysylltiad a'r rhesymau amdano tra'n caniatáu deialog effeithiol ar yr un pryd.

Un maes ymgysylltu parhaus allweddol yw Risg Hinsawdd a'r ymdrechion i gyrraedd allyriadau carbon sero net. Fel buddsoddwyr, mae ymgysylltu yn offeryn cadarn ac allweddol i sicrhau bod cwmnïau, diwydiannau allweddol a'r economi fyd-eang ar drywydd trosiant sydd wedi'i alinio gyda'r angen i gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C. Mae'r prif themâu ymgysylltu ar fater hinsawdd a welwyd yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys Gweithredu ar Hinsawdd, Allyriadau Carbon Sero Net, Heriau ESG yn y Diwydiant Moduro, a Newid Hinsawdd a Llesiant yn y diwydiant eiddo swyddfeydd tiriathol. Er bod ffocws penodol pob thema yn wahanol, yr un yw nod cyffredinol pob un ohonynt: annog cwmnïau i gychwyn ar daith datgarboneiddio esmwyth a thrwy hynny sicrhau eu trwydded hirdymor i weithredu.

Wedi i Climate Action 100+ gyflwyno'r Meincnod Cwmni Sero Net newydd, mae Robeco wedi adnabod wyth amcan ymgysylltu. Bydd Robeco yn ceisio deall yn well sut mae cwmnïau'n gweld y trosiant, a beth yw eu prif heriau. Ar yr un pryd, bydd Robeco yn rhoi gwybod iddynt fod disgwyl cael strategaethau ar waith i ddatgarboneiddio eu busnesau a'r cynhyrchion a werthant. Yn olaf, bydd Robeco yn galw arnynt i wneud ymrwymadau seiliedig ar wyddoniaeth i weithredu ar hinsawdd, sicrhau trosiant cyfiawn a gwella eu datgelu ar bynciau yn gysylltiedig ag allyriadau, gan gynnwys eu dadansoddiadau cost-mantais o wneud y trosiant i sero net.

Yn fwy cyffredinol, mae Robeco yn darparu diweddariad statws chwarterol o'i gynnydd ar themâu ymgysylltu. Amlinellir isod y sefyllfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021 ar themâu cyfredol, ac fe wnaed cynnydd ar ymgysylltu mewn rhai meysydd. Er enghraifft, cafodd thema Gweithredu ar Hinsawdd ei chau (gweler yr astudiaeth enghreifftiol isod) a chafwyd llwyddiant yn 50% o achosion yn erbyn yr amcanion a osodwyd ac mae thema Bioamrywiaeth yn parhau'n gymharol newydd, ac ni chafwyd unrhyw gynnydd hyd yn hyn. Bydd PPC yn defnyddio'r adroddiadau hyn ynghyd ag adroddiadau manylach gan Robeco i symud ei deialog a'i her ymlaen.



Astudiaeth enghreifftiol: Thema Gweithredu ar Hinsawdd

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, caeodd Robeco eu hymgysylltiad tair blynedd gyda'r cwmnïau yn thema Gweithredu ar Hinsawdd. Yn yr asesiad terfynol o gynnydd a wnaed ar yr amcanion, edrychodd Robeco ar y mewnwleidiadau a gafwyd yn ystod ein deialog, a chanlyniadau'r asesiad meincnod CA100+ a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. O'r 12 cwmni oedd yn weddill yn y grŵp cwmnïau cyffelyb, roedd Robeco yn gallu cau eu hymgysylltiad gyda nhw yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, caewyd yr ymgysylltu gyda'r chwech arall yn aflwyddiannus. Mae hyn yn amlwg yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yng nghyfnodau cynnar iawn y trosiant ynni o hyd. Er bod Robeco yn edrych yn ffafriol ar y ffaith fod mwy o gwmnïau yn fodlon pennu targedau allyriadau sero net uchelgeisiol ar gyfer 2050, yr her fwyaf yw troi'r targedau hyn yn gynlluniau trosiant clir a chyflawnadwy. Er y daeth sawl cwmni yn bell trwy gydnabod yr angen taer i weithredu, mae angen mwy o amser ar y rhan fwyaf ohonynt i ddiffinio eu trywyddau.

Dangosodd hanner y cwmnïau ffocws welliant teg trwy wneud nifer o ymrwymïadau cryfion i'w hunain, a chawn ein calonogi'n fawr ganddynt. Y sector cyfleustodau sydd wedi cymryd y camau mwyaf yn y trosiant ynni, ac mewn olew a nwy, dim ond y cwmnïau Ewropeaidd sydd wedi gweithredu. Mae Robeco yn parhau'n bryderus am y sectorau anodd-i'w-cyrraedd fel cemegau, lle nad oes unrhyw lwybr trosiant clir o hyd, a lle na welwyd arloesi technolegol hyd yn hyn.

Mae Robeco yn darparu adroddiadau diweddar rheolaidd sy'n amlinellu'r gweithgarwch ymgysylltu a wnaed ymhob chwarter sy'n cael eu hystyried gan PPC o fewn yr Is-grŵp BC a gwneir her neu gofynnir am esboniad lle y mae angen. Mae'r astudiaeth enghreifftiol isod yn dangos un mater a gafodd ei herio.

Astudiaeth enghreifftiol: Safbwyntiau gwahanol am gwmni

Yn ystod cyfarfod adolygu fe nodwyd y daeth gweithgarwch ymgysylltu Robeco gyda Vale SA i ben yn y gorffennol oherwydd diffyg cynnydd, ond roedd hyn yn parhau'n ddaliad mewn dwy o Is-gronfeydd PPC (Cronfa Cyfleoedd Byd-eang; Cronfa Credyd Byd-eang). Arweiniodd hyn at ddeialog gyda Russell a'r rheolwr buddsoddi gwaelodol oedd yn gyfrifol am y daliad, ac at angen i ddeall rhesymau dros y gwahaniaethau barn.

Amlinellodd Robeco safbwyntiau ar ymgysylltiadau blaenorol a'r rhesymau pam fu'r ymgysylltiad yn aflwyddiannus, a arweiniodd yn y pendraw at argymhelliad i eithrio. Roedd y rheolwr gwaelodol oedd yn dal y stoc yn y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang wedi dod i gasgliad tebyg, ond roedd wedi parhau ei ymgysylltiad gyda'r cwmni, a darparwyd tystiolaeth o ddeialog sylweddol barhaus. Canlyniad hynny oedd yr ail-sefydlwyd hyder yn y cwmni a chred fod y cwmni wedi dechrau symud i'r cyfeiriad iawn o ran rheoli risgiau amgylcheddol, gan arwain at sefydlu swydd yn y cwmni.

Mae PPC yn deall y gall eu darparwyr edrych yn wahanol ar ddaliadau unigol, a thrwy ddeialog a gawsant yn y cyswllt hwn, maent yn fodlon fod y casgliadau a gyrhaeddwyd gan bartïon gwahanol yn gyson.

Mae PPC yn annog her ar weithgarwch ymgysylltu gan randdeiliaid niferus

Trefnodd PPC sesiwn hyfforddiant gan Robeco gydag aelodau'r GS a'r CBLI i sicrhau bod ei rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r gweithgarwch oedd yn cael ei gyflawni ar eu rhan. Cododd hyn ymwybyddiaeth o'r dulliau ymgysylltu ac fe symbylodd her. O gofio'r ystod o randdeiliaid sy'n rhan o'r gwaith trosolwg o PPC, ceir gwybodaeth dda o'r gweithgareddau a gyflawnir gan LAPFF, ac mae hyn wedi galluogi aelodau'r CBLI i herio gweithgareddau a gyflawnir.

Astudiaeth enghreifftiol: Her gan y CBLI

Cafwyd un enghraifft o'r her hon wrth ddadansoddi ymgysylltu o ran daliadau PPC yn **Royal Dutch Shell**. Roedd Robeco yn barnu y bu'r ymgysylltu gyda Shell yn llwyddiannus gan y cyflawnwyd yr amcanion gwaelodol. Fodd bynnag, heriwyd y cynnydd gan y CBLI sydd, gan ddefnyddio mewnbwn gan LAPFF, wedi dod i gasgliad gwahanol o ran faint o gynnydd a gafwyd.

Er bod deialog ar y pwnc hwn wedi parhau wedi diwedd blwyddyn yr adroddiad hwn, mae trafodaeth barhaus gyda Robeco wedi adeiladu dealltwriaeth o'r camau nesaf yn y broses ymgysylltu fydd yn parhau o dan thema wahanol a chan bennu amcanion gwahanol.

Mae PPC yn credu fod y broses her ac adborth y mae ei strwythur wedi'i hannog yn gadarnhaol a bydd yn parhau i hwyluso'r math yma o ddeialog o fewn ei strwythur llywodraethu. Mae PPC yn gweithio hefyd i sicrhau bod adroddiadau ar gynnydd ymgysylltu yn cael eu rhaedru'n effeithiol i bob rhanddeiliad.

Mae PPC yn elwa hefyd o ymgysylltiadau Russell Investments

Er na phenodwyd Russell yn ddarparwr ymgysylltu fel y cyfryw, maent yn dal i gyfrannu at ymarfer stiwardiaeth ar gyfer PPC. Mae'r astudiaeth enghreifftiol isod yn dangos un ymgysylltiad arall.

Astudiaeth enghreifftiol: Ymgysylltiad partneru Russell gyda cwmni deunyddiau adeiladu o'r lwerddon ar reoli trosiant hinsawdd

Mae Russell Investments wedi rhoi blaenoriaeth gyson i waith allestyn ar risg newid hinsawdd a chynaliadwydd mewn ymgysylltiadau uniongyrchol a chydweithiol. Ehangodd Russell gwmpas eu hymgysylltiadau yn y maes hwn trwy ymuno â thema Trosiant Hinsawdd Sustainability. Roedd Sustainability wedi dechrau ymgysylltu â'r cwmni hwn yn 2018, trwy amlygu pwysigrwydd datgelu, lleihau allyriadau, a disgwyliadau o safbwynt buddsoddwr o ran risg trosiant hinsawdd.

Ymunodd aelod o Is-bwyllgor Ymgysylltu Russell Investments â'r drafodaeth hon, a arweiniwyd gan Sustainability, yn Ch4 2020. Dangosodd y cyfarfod hwn y camau breision a gymerodd y Cwmni wrth weithredu ar yr ymrwymadau a wnaed yn y gorffennol i Sustainability, yn enwedig felly wrth alinio gyda safonau adrodd TCFD, yn ogystal ag ymdrechion i ddatgelu mwy trwy ddatblygu targedau seiliedig ar wyddoniaeth. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar bwysigrwydd nodau interim ar gyfer alinio â safonau adrodd hirdymor, a chymerodd y cwmni'r canllawiau hyn oddi wrth Sustainability a'u hintegreiddio yn eu hymdrechion eu hunain.

Daeth thema Trosiant Hinsawdd i ben yn Ch1 2021, ac fe sefydlwyd y Cwmni hwn yn arweinydd mewn gweithgorau i ddatblygu fframwaith ar gyfer targedau seiliedig ar wyddoniaeth i'r economi adeiledig sero net. Mae'r cwmni yn parhau i weithio ar alinio gyda safonau TCFD. Er y daeth yr ymgysylltiad ar Drosiant Hinsawdd i ben, nid felly'r materion yr aeth i'r afael â nhw. Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu cwmnïau yn cynnwys trosi perthnasedd meintiol a disgrifiadol yn effeithiau ariannol allweddol a mesur ac adrodd ar allyriadau Cwmpas 3.

Wrth edrych ymlaen, mae Russell Investments yn bwriadu parhau eu gwaith allestyn ar y materion hyn.

Egwyddor 10: Mae llofnodwyr, lle y bo angen, yn cyfrannu at ymgysylltu cydweithredol i ddylanwadu ar gyhoeddwr.

Mae gan PPC uchelgais i gydweithio gyda buddsoddwyr a chyrrff cynrychioliadol eraill o'r un anian er mwyn gwneud yn fawr o ddylanwad asedau PPC ar y cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Trwy weithio gyda Robeco, bydd PPC yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediadau buddsoddi cyfrifol dan arweiniad buddsoddwyr y gellir rhoi cefnogaeth weithredol iddynt.

Er mai ar ei brifant y mae ymglymiad uniongyrchol PPC gyda gweithredu cydweithiol, cymerodd rai camau i adeiladu ei dealltwriaeth o gydweithrediadau yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, mewn sesiwn hyfforddiant ym mis Tachwedd 2020, rhoddodd cynrychiolwyr Principles for Responsible Investment a ShareAction gyflwyniad i'r CBLI i amlinellu'r gwaith oedd yn cael ei wneud, gan adeiladu dealltwriaeth aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu o weithgareddau allai gael eu blaenoriaethu yn y dyfodol.

Mae PPC yn cael y gorau o ymdrechion cydweithredol ei darparwyr

Codwyd cam cydweithiol arall ar ficroblastigau yn ystod trafodaethau'r Is-grŵp BC ac fe sefydlwyd fod y fenter hon yn cael ei chefnogi'n uniongyrchol gan Robeco. Mae'r enghraifft hon yn dangos y pwysau y gall PPC eu dwyn trwy weithio trwy ei darparwyr gwasanaethau ac mae'n nodi fod Robeco yn aelod gweithgar o Climate Action 100+, sy'n golygu ei fod yn cydweithio'n uniongyrchol gyda darparwyr eraill ar ran PPC. Ymunodd Russell hefyd â menter Climate Action 100+ yn ystod 2020.

Astudiaeth enghreifftiol: Ymgysylltiad Robeco gyda Royal Dutch Shell Trwy'r Cydweithrediad CA100+

Royal Dutch Shell oedd y cwmni olew a nwy cyntaf i gyflwyno uchelgais i leihau ei ôl troed carbon, gan ymestyn at 2050. Ar ei Ddiwrnod Strategaeth 2021 ym mis Chwefror 2021, tynhaodd Shell ei dargedau allyriadau sero net a chyhoeddodd ei fod yn rhoi pleidlais ymgynghorol i gyfranddalwyr ar gynllun trosiant hinsawdd Shell yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol eleni.

Digwyddodd llawer o'r cynnydd hwn gan Shell oherwydd yr ymgysylltu parhaus gyda Shell o dan ymbarél CA100+, a arweiniwyd gan Robeco (ar y cyd â'r Comisiynwyr Eglwysig). Gan ei bod yn gleient uniongyrchol i Robeco, mae asedau PPC yn cryfhau'r gweithgarwch ymgysylltu hwn er, fel y nodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, bydd PPC yn dwyn Robeco i gyfrif dros y camau a gymerwyd.

Mae PPC yn cydweithio'n uniongyrchol mewn rhai meysydd i adeiladu arfer gorau

Un maes cydweithredu uniongyrchol y mae PPC yn rhan ohono yw trwy'r prosiect cydweithio BC Traws-Gronfa pan ddaw unrhyw gyfle addas. Mae'r grŵp yn cynnwys cronfeydd CPLIL o Loegr, Yr Alban a Chymru, ac mae'n cynnwys cronfeydd a gweithredwyr pyllau. Mae'r fforwm yn gyfle am drafodaethau rhwng buddsoddwyr yr CPLLL, sy'n gweithredu yn yr un amgylchedd rheoleiddiol a chyda disgwyliadau tebyg gan Awdurdodau Cyfansoddol a buddiolwyr ar faterion BC ac ESG.

Mae PPC, ynghyd â'r holl Awdurdodau Cyfansoddol, yn aelodau o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF). Mae LAPFF yn cynnal ymgysylltiadau gyda chwmnïau ar ran ei holl aelodau. Mae LAPFF yn fforwm ar gyfer Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol, a hwn yw'r fforwm ymgysylltu cydweithredol mwyaf i gyfranddalwyr yng ngwledydd Prydain, ac mae'n ymgysylltu ar draws ystod eang o themâu ESG gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae PPC yn aelod cronfa o LAPFF ac mae'n bwydo mewn i'r cynllun gwaith ymgysylltu blynnyddol.

Mae PPC yn manteisio'n uniongyrchol ar rybuddion pleidleisio LAPFF sy'n cael eu bwydo i mewn i'r polisi pleidleisio fel y disgrifiwyd yn Egwyddor 12. Hefyd, mae gwybodaeth a gasglwyd o ymgysylltu â LAPFF yn gosod sylfaen ar gyfer deialog a her barhaus i weithgareddau Robeco ei hun, gan sicrhau felly fod trafodaethau yn adeiladol.

Egwyddor 11: Mae llofnodwyr, lle y bo angen, yn dwysáu gweithgareddau stiwardiaeth i ddylanwadu ar gyhoeddwr.

Mae PPC yn dibynnu ar ei darparwyr i ddwysáu pryderon a leisir

Mae PPC yn credu fod dwysâd o ran eu hymgysylltiadau yn agwedd allweddol ar stiwardiaeth effeithiol, ac mae felly wedi bod yn gweithio'n agos gyda Robeco i sicrhau lle y bo angen fod dwysâd yn cael ei wreiddio yn eu ffordd o weithio.

Mae Robeco yn credu fod deialog adeiladol gyda'r cwmnïau y mae cleientiaid PPC yn buddsoddi ynddynt yn fwy effeithiol nag eithrio cwmnïau o'r bydysawd buddsoddi. Mae Robeco a PPC yn credu mai cam olaf yn unig yw eithrio cwmnïau o'r bydysawd buddsoddi, ac na ddylai ond digwydd wedi i ymgysylltu a dwysâd fethu. Fel perchennog asedau cyfrifol, bydd PPC yn ceisio dylanwadu ar gyhoeddwr lle bynnag y bo modd.

I'r perwyl hwnnw, pan mae'r ymgysylltu cychwynnol yn methu, bydd Robeco yn gweithredu 'ymgysylltu ehangach', lle y maent yn dwysáu deialog gyda chwmnïau ar bynciau penodol. Ceir ymgysylltiad ehangach wedi i gwmni dorri'r normau ymddygiad isaf-derbyniol a gellir wedyn ei ddwysáu trwy eithrio cwmni o'r bydysawd buddsoddi am fethu gwella ei ymddygiad ESG wedi i'r ymgysylltiad ddod i ben. O ran ymgysylltiadau gwerth ac ehangach, gellir mynd i'r afael â diffyg ymateb gan gwmni trwy geisio cael ymgysylltiad ar y cyd, mynychu cyfarfod cyfranddalwyr yn bersonol, neu rannu pryderon yn ysgrifenedig gyda'r bwrdd, a gall hyn arwain at gyfarwyddiadau pleidleisio procsi andwyol ar faterion perthnasol ar agenda mewn cyfarfod cyfranddalwyr. Ceir enghraifft o ddwysâd pleidleisio ar gyfer Cooper Companies Inc. o dan Egwyddor 12.

Astudiaeth enghreifftiol: Ymgysylltiad Dwysedig Robeco Yara International

Oherwydd y methiant i gysylltu â'r cwmni, dwysaodd Robeco yr ymgysylltiad trwy ddanfôn llythyr at Adran Cysylltiadau â Buddsoddwyr ac Is-lywydd Llywodraethu Cynaliadwyedd Yara yn gofyn iddynt ymateb i'r cais cychwynnol am ddeialog ar fater diogeledd bwyd. Yn anffodus, ni dderbyniodd Robeco unrhyw ymateb wedi'r dyddiad olaf a nodwyd yn y llythyr ac er gwaethaf sawl ymdrech ychwanegol i sefydlu deialog adeiladol gennym ni.

Roedd Robeco yn teimlo, er bod Yara yn nodi mai diogeledd bwyd yw eu mater cynaliadwyedd mwyaf perthnasol, fod datgelu ar y mater yn gyfyngedig iawn. Mae adroddiadau ar strwythurau llywodraethu cynaliadwyedd, rheoli arloesedd a chyfraniad datblygu cynaliadwy Yara yn ddiffygiol iawn. Caeodd Robeco yr ymgysylltiad yn un aflwyddiannus gan fod yr ymdrechion i gael deialog wedi methu, hyd yn oed gyda'r ymgysylltu ychwanegol dwysedig.

O safbwynt PPC mae'r holl adroddiadau gan Robeco hefyd yn cofnodi'r holl ymgysylltiadau aflwyddiannus ac maent yn trafod y rhain gyda Robeco mewn cyfarfodydd rheolaidd.

Bydd PPC yn dwysáu pryderon am ddaliadau yn uniongyrchol gyda darparwyr lle y bo angen

Mae PPC yn cynnal trafodaethau uniongyrchol gyda'r tri rheolwr gwaelodol yn y Gronfa Twf Byd-eang (Baillie Gifford, Pzena, Veritas). Trwy ei threfn fonitro, roedd PPC wedi adnabod un daliad ym mhortffolio Pzena a chanddo allyriadau carbon arwyddocaol a rhoddodd wybod i'r rheolwr am y pryderon yn ystod y trafodaethau hyn. Wedi i'r rheolwr adolygu'r safle yn y portffolio, cafodd y daliad ei werthu.

4 Pleidleisio

Egwyddor 12: Mae llofnodwyr yn mynd ati o ddifrif i ymarfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

Mae PPC yn credu y gallai methu ymarfer hawliau pleidleisio neu hawliau eraill sydd ynghlwm wrth asedau fod yn groes i fuddiannau buddiolwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol. Cyn penodi Robeco a gweithredu polisi pleidleisio PPC, roedd rheolwyr unigol mewn is-gronfeydd yn gyfrifol am bleidleisio yn unol â'u polisi tŷ eu hunain. Trwy weithredu un polisi, mae PPC wedi sicrhau y caiff pob pleidlais ei bwrw mewn ffordd gyson.

Mae PPC yn nodi nad yw'r polisi hwn yn berthnasol eto i gronfeydd a reolir yn oddefol lle y mae'r darparwr goddefol yn gyfrifol am y gweithgarwch hwn ar hyn o bryd.

Cymerodd PPC agwedd bragmataidd at weithredu ei Pholisi Pleidleisio cyntaf

Fel y nodwyd yn ein hymateb i Egwyddor 5, mae PPC wedi mabwysiadu polisi safonol Robeco ar gyfer ei pholisi ei hun. Edrychodd yr Is-grŵp BC ar drefniadau gwahanol ar gyfer ei waith datblygu polisi gyda Robeco, gan gynnwys datblygu polisi "o'r gwaelod i fyny", ond penderfynodd y byddai mabwysiadu'r polisi mewnol yn safon gychwynnol yn golygu y gellid gweithredu un safon yn gyflym.

Un maes y rhoddwyd cryn sylw iddo wrth gytuno ar y safon oedd y broses a ddefnyddir wrth bleidleisio ar benderfyniadau cyfranddalwyr, ac roedd yr Is-grŵp BC yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'r broses i'w dilyn. Gofynnwyd i Robeco am eglurhad ar hyn ac fe gytunwyd gweithredu proses hysbysu er mwyn gallu adnabod ac adolygu pleidleisiau o'r fath. O'r herwydd, er y mabwysiadwyd y polisi safonol, gweithiodd PPC gyda Robeco i drefnu hysbysiad wythnosol o bleidleisiau arfaethedig a galluogi PPC i ddiystyru argymhellion pleidleisio os oedd yn dymuno. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau o'r fath eu diystyru hyd yn hyn.

Helpodd trafodaethau gyda Robeco yr Is-grŵp BC i adeiladu dealltwriaeth fanylach o sut roedd polisiau pleidleisio'n cael eu datblygu a'u datblygu, fel y gwelir yn yr enghraifft isod.

Astudiaeth enghreifftiol: Herio Robeco ar arferion pleidleisio ynghylch newid hinsawdd

Wrth drafod agwedd Robeco at bleidleisio ar faterion hinsawdd, fe nodwyd fod un o'r ymgynghorwyr procsi mawr wedi cymryd camau i ddatblygu eu hargymhellion pleidleisio ar etholiadau cyfarwyddwyr yn wyneb methiant i weithredu ar faterion hinsawdd. Ceisiodd PPC gael eglurder ar agwedd Robeco.

"Ers y llynedd mae polisi pleidleisio Robeco eisoes wedi rhoi ystyriaeth i reoli a datgelu Risgiau Hinsawdd wrth bleidleisio ar ethol cyfarwyddwyr. Rydym wedi alinio ein pleidleisiau gyda'r asesiadau a gynhaliwyd gan y Fenter Trywydd Trosiant (TPI) i sicrhau dynesiad pleidleisio cyson. Ar gyfer cwmnïau ag iddynt sgôr o 0 neu 1 a aseiniwyd gan y TPI, cafodd ein pleidleisiau eu bwrw yn erbyn Cadeirydd y Bwrdd, a byddwn yn mabwysiadu'r drefn ar gyfer PPC.

Mae ISS hefyd wedi cymryd camau ymlaen yn 2021 i ymgorffori pryderon am hinsawdd mewn argymhellion ar etholiadau bwrdd. Fodd bynnag, nid yw eu polisi safonol ond yn cynnwys troednodyn yn nodi y byddant yn ystyried pleidleisio yn erbyn cynigion pan mae byrddau wedi dangos trosolwg gwael o faterion hinsawdd. O ystyried y geiriad bras ni allwn asesu'n hyderus i ba raddau fydd eu dynesiad yn cael ei halinio gyda'n ni yn y tymor hwn. Er hynny, rydym yn cael ein calonogi fod hinsawdd yn dod yn faes trosolwg mwy cydnabyddedig a chredwn y bydd diweddariad ISS yn helpu rhoi hyn ar agenda byrddau sydd wedi esgeuluso eu cyfrifoldebau yn y gorffennol."

Gweithiodd PPC gyda Robeco i adnabod ei meysydd pleidleisio blaenoriaeth

Wrth ddatblygu ei pholisi pleidleisio, roedd PPC yn cydnabod yr her o ffocysu ar yr holl weithgarwch pleidleisio fel rhan o'i hadolygiad a cheisiodd felly drefnu ei meysydd blaenoriaeth ei hun. Roedd y gwaith parhaus o ddatblygu polisi wedi amlygu nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt a dewisodd yr Is-grŵp BC chwe maes ar gyfer gwneud gwaith craffu manylach. Y meysydd hynny yw:

Blaenoriaeth Pleidleisio	Rhesymwaith
Rheoli Newid Hinsawdd	Gall newid hinsawdd gael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar berfformiad a gwerth cyfranddaliadau cwmni. Mae newid hinsawdd, a'r rheolaeth effeithiol ohono, yn fater y dylai cwmnïau ymhob diwydiant ei ystyried a mynd i'r afael ag ef er mwyn diogelu gwerth cyfranddaliadau.
Datgeliadau Risg Hinsawdd	Mae Risg Hinsawdd yn cynrychioli risg ariannol bosib i fuddsoddwyr, benthydwyr a rhanddeiliaid eraill, ac o'r herwydd mae ganddynt hawl i wybod: Effeithiau gwirioneddol a phosib risgiau a chyfleoedd yn gysylltiedig â hinsawdd ar fusnesau, strategaeth a chynllunio ariannol y sefydliad; Sut mae'r sefydliad yn adnabod, asesu a rheoli risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd; Y metrigau a thargedau a ddefnyddir i asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd perthnasol yn gysylltiedig â hinsawdd
Gwella llywodraethu cyfranddeiliaid	Gall gofynion pleidleisio uwchfwyafrifol rwystro cyfranddeiliaid rhag gweithredu camau llywodraethu pwysig sydd er lles gorau iddynt. Mae PPC yn credu fod Hawliau Pleidleisio yn hollbwysig wrth ddiogelu a gwella gwerth hirdymor ei buddsoddiadau, ac o'r herwydd bydd yn pleidleisio yn erbyn trefniadau llywodraethu pleidleisio sy'n annemocrataidd ac sy'n cyfyngu ei gallu i greu newid sydd er lles gorau ei rhanddeiliaid
Amrywiaeth ar y Bwrdd	Mae'n llesol i Fwrdd gael ystod amrywiol o bersbectifau a sgiliau. Dylai lefelau uchel o amrywiaeth ar y Bwrdd a lefelau digonol o adnewyddu'r Bwrdd feithrin trafod a her adeiladol, cynhyrchu syniadau newydd a rheolaeth effeithiol, a ddylai yn eu tro greu gwerth i gyfranddeiliaid.
Cadw a Datblygu Cyfalaf Dynol	Trwy annog cwmnïau i ddatgelu eu polisïau, perfformiad a thargedau gwelliant ar risgiau cyfalaf dynol perthnasol bydd cyfranddeiliaid yn cael gwell darlun o sut aeth y cwmni ati i ymdrin â mater cyfalaf dynol o ran y tîm arwain presennol a ffynhonnell denu talent i'r dyfodol. Bydd rheoli a datblygu Cyfalaf Dynol yn effeithiol yn llesol i werth cyfalaf a marchnad cyffredinol y cwmnïau y buddsoddir ynddynt.
Tâl Prif Swyddogion: ffocysu ar ddeilliannau hirdymor	Bydd cyfarwyddwyr yn gwneud penderfyniadau sydd er lles hirdymor y cwmni os yw eu tâl eu hunain yn gysylltiedig â'r metrig perfformiad hwn. Dylai pecynnau tâl sydd ynghlwm wrth brofiad cyfranddeiliaid a gweithwyr annog cyfarwyddwyr i ystyried gofynion cyfranddalwyr a diogelu prif ffynhonnell cyfalaf dynol, eu gweithwyr.

Mae PPC wedi trafod a chytuno'r meysydd blaenoriaeth hyn gyda Robeco a byddant yn elfen allweddol o'r trafodaethau a'r craffu parhaus a gynhelir. Bydd hyn yn cynnwys cymryd safbwynt rhagweithiol ar bleidleisio ar gynigion cyfranddalwyr gan roi sylw arbennig i'r meysydd hyn, yn ogystal ag integreiddio'r materion hyn yn asesiad Robeco o gynigion y Bwrdd megis, er enghraifft, pan ellir

cyfiawnhau pleidleisio yn erbyn y rheolwyr ar gyfer cwmnïau a chanddynt lywodraethiant hinsawdd gwael.

Mae PPC wedi cyfarwyddo Robeco i ystyried rhybuddion pleidleisio LAPFF

Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn aelodau o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol. Fel aelodau, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn derbyn Rhybuddion LAPFF pan mae ymgyrch ar waith i bleidleisio mewn ffordd arbennig. Mae PPC a'i Hawdurdodau Cyfansoddol wedi cyfarwyddo Robeco i roi ystyriaeth i bob Rhybudd LAPFF o'r fath a, phan mae Robeco yn ystyried hynny'n briodol, i bleidleisio yn unol â'r Rhybudd LAPFF. Mewn sefyllfaoedd felly lle y mae barn Robeco yn wahanol i un LAPFF, bydd PPC yn dilyn cyngor Robeco ond yn gofyn am resymau pam.

Mae PPC wedi gweithio i sicrhau y gall fonitro effeithiolrwydd pleidleisio


Cyn gweithredu polisi pleidleisio PPC ei hun, roedd pleidleisiau'n cael eu bwrw yn unol â pholisïau pleidleisio'r rheolwyr unigol. O gofio natur amrywiol y polisïau pleidleisio hyn a'r ffocws ar weithredu un polisi pleidleisio, ni wnaeth PPC graffu deilliannau pleidleisio yn annibynnol cyn i'r newid hwn gael ei wneud.

Mae Robeco yn darparu adroddiadau pleidleisio chwarterol i PPC, yn cynnwys ystadegau a gwybodaeth allweddol ar bleidleisio a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod. Gan nad yw Robeco ond wedi bod yn pleidleisio yn unol â'r polisi a gytunwyd er 1 Ionawr 2021, mae'r data a adroddwyd yn gyfyngedig i dri mis olaf y cyfnod. Ceir crynodeb o hyn yn y tabl isod.

Ch1, 2021	
Nifer y cyfarfodydd	52
Pleidleisiau a fwriwyd	623
Dros	571
Heb bleidleisio	0
Ymatal	0
Yn erbyn	52
Arall	0
Gyda'r rheolwyr	569
Yn erbyn y rheolwyr	54
Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un bleidlais yn erbyn rheolwyr	30 (58%)

Mae Robeco hefyd yn darparu manylion llawn yr holl bleidleisiau a fwriwyd yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y math o gyfarfod, disgrifiad, cynigydd, argymhellion rheolwyr a phleidlais Robeco. Mae hyn yn galluogi PPC i fonitro'r gwaith y mae Robeco yn ei wneud ar ei rhan a chymharu gyda'r Egwyddorion Pleidleisio a bennwyd.

Votes cast per proposal category



Bu'r pleidleisio ar faterion pleidleisio yn unol â bwriadau polisi PPC

Mae PPC wedi ail-edrych ar y pleidleisio a wnaeth Robeco ar ei rhan dros Ch1, 2021 yn erbyn y blaenoriaethau polisi ac mae'n nodi, ar draws nifer o benderfyniadau, y bwriwyd pleidleisiau yn unol â bwriadau PPC. Ceir enghreifftiau o hyn isod:

Cwmni:	DSV Panalpina
Dyddiad:	Mawrth 2021
Penderfyniad:	Cynnig gan gyfranddaliwr ynghylch adroddiadau TCFD
Maes polisi blaenoriaeth:	Datgeliadau Risg Hinsawdd
Pleidleisio:	Dros (Gyda'r Rheolwyr)

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol DSV roedd angen pleidleisio ar gynnig cyfranddaliwr (SHP) oedd yn gofyn i'r cwmni gyflwyno adroddiad ar argymhellion TCFD neu fframweithiau eraill a argymhellir yn gyffredinol yn eu hadroddiad blynnyddol. Cefnogodd Robeco yr SHP hwn gan fod y TCFD yn darparu casgliad o ddatgeliadau a argymhellir sy'n ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau sy'n galluogi buddsoddwyr i asesu'r risgiau y mae cwmnïau'n eu hwynebu a'r camau y mae'r cwmnïau hynny'n eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny i gymaint graddau ag y gallant.

Cwmni:	Carlsberg
Dyddiad:	Mawrth 2021
Penderfyniad:	Ethol Flemming Besenbacher
Maes polisi blaenoriaeth:	Amrywiaeth
Pleidleisio:	Yn erbyn (Yn erbyn y Rheolwyr)

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Carlsberg pleidleisiodd Robeco yn erbyn enwebiad Cadeirydd y Pwyllgor Enwebu gan nad oes gan y Bwrdd nifer digonol o gyfarwyddwyr benywaidd, sef dim ond 20%. Nid yw hynny'n bodloni'r trothwy o 30% ac o'r herwydd dangosodd Robeco ein hanfodlonrwydd trwy bleidleisio yn erbyn y cyfarwyddwr sy'n uniongyrchol gyfrifol am gyfansoddiad y Bwrdd.

Cwmni:	L G Chemical
Dyddiad:	Mawrth 2021
Penderfyniad:	Ethol CHA Dong Seok
Maes polisi blaenoriaeth:	Amrywiaeth
Pleidleisio:	Yn erbyn (Yn erbyn y Rheolwyr)

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol L G Chemical gwnaethom bleidleisio yn erbyn y cyfarwyddwr heb fod yn annibynnol diweddaraf a benodwyd oherwydd bod y bwrdd yn methu ymgorffori ystyriaethau sylfaenol ar gyfer amrywiaeth rhywiaethol gan nad oes unrhyw fenywod yn gwasanaethu ar y bwrdd.

Cwmni:	Siemens AG
Dyddiad:	Mawrth 2021
Penderfyniad:	Cynyddu Cyfalaf Awdurdodedig ar gyfer Cynllun Gweithwyr yn Prynu Cyfranddaliadau
Maes polisi blaenoriaeth:	Cadw Gweithwyr
Pleidleisio:	Dros (Gyda'r Rheolwyr)

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Siemens gwnaethom gefnogi cynnig gan reolwyr yn gofyn am gynydd mewn cyfalaf awdurdodedig ar gyfer cynllun prynu cyfranddaliadau i weithwyr. Rydym yn cydnabod gwerth rhaglenni cymelliannau yn seiliedig ar ecwiti a chynlluniau prynu cyfranddaliadau i weithwyr. O'u defnyddio'n briodol, gallant fod yn fodd o gysylltu cyflog gweithiwr gyda pherfformiad cwmni, a thrwy hynny alinio eu buddiannau gyda rhai cyfranddalwyr. Mae clymu cyfran o gyflog gweithiwr gyda pherfformiad y cwmni yn cynnig cymhelliad i roi'r gwerth mwyaf posib i gyfranddaliadau. Hefyd, credwn fod ecwiti yn ffordd effeithiol o ddenu, cadw a chymell gweithwyr.

Penderfyniad:	Cynnig Cyfranddaliwr Ynghylch Hawliau Cyfranddalwyr Mewn Cyfarfodydd Cyffredinol Rhithiol
Maes polisi blaenoriaeth:	Hawliau llywodraethu cyfranddalwyr
Pleidleisio:	Dros (Yn erbyn y Rheolwyr)

Hefyd, cefnogodd Robeco gynnig cyfranddalwyr (SHP) ynghylch yr hawl i ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd cyffredinol rhithiol. Yn benodol, roedd yr SHP yn gofyn am gydsyniad cyfranddalwyr i ddiwygio'r erthyglau cymdeithasiad i alluogi cyfranddalwyr i allu gofyn cwestiynau yn ystod cyfarfodydd cyffredinol rhithiol. Roedd Robeco yn credu fod darpariaeth bresennol y cwmni ar gyfer cwestiynau mewn cyfarfodydd cyffredinol rhithiol yn rhy gaeth, yn enwedig felly o ystyried maint a chwmpas y cwmni a rhyngwladolrwydd ei gorff cyfranddalwyr. Roedd Robeco yn credu hefyd y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn arwain at welliant a mwy o eglurder yn hawliau cyfranddalwyr i gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd rhithiol y gallai'r cwmni eu cynnal i'r dyfodol. Ym marn Robeco, roedd yr effaith gadarnhaol hon ar hawliau cyfranddalwyr yn drech na'r costau technegol a threfniadol y byddai'n rhaid i'r cwmni eu hysgwyddo er mwyn galluogi cyfranddalwyr i ofyn cwestiynau yn ystod cyfarfod cyffredinol rhithiol.

Cwmni:	Cooper Companies Inc
Dyddiad:	Mawrth 2021
Penderfyniad:	Ethol Colleen E. Jay
Maes polisi blaenoriaeth:	Tâl
Pleidleisio:	Yn erbyn (Yn erbyn y Rheolwyr)

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cooper Companies yn enghraifft dda o agwedd dwysáu Robeco at bolisi tâl. Pleidleisiodd Robeco yn erbyn Llais ar Dâl y cwmni gan fod y cwmni'n defnyddio eu hawl i godi tâl i gynyddu'r bonws blynnyddol. Hon oedd y drydedd flwyddyn yn olynol i Robeco bleidleisio yn erbyn y Llais ar Dâl. Pan maen nhw'n pleidleisio am dair blynedd yn olynol neu ragor yn erbyn tâl maen nhw hefyd yn defnyddio hawliau pleidleisio i wrthwynebu ail-ethol cadeirydd y pwyllgor tâl gan eu bod wedi methu gwneud gwelliannau ystyrlon i arferion tâl. Yn benodol, mae Robeco yn defnyddio'r pwysau hyn pan maen nhw wedi pleidleisio yn erbyn tâl am dair blynedd yn olynol heb weld ymateb priodol gan gwmni i'r lefel hon o anffodlonrwydd.

Cwmni:	Essity Aktiebolag (publ)
Dyddiad:	Mawrth 2021
Penderfyniad:	Polisi Tâl
Maes polisi blaenoriaeth:	Tâl
Pleidleisio:	Yn erbyn (Yn erbyn y Rheolwyr)

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Essity Aktiebolag (publ) pleidleisiodd Robeco yn erbyn y polisi a'r adroddiad tâl gan fod y strwythur tâl yn rhoi gormod o ffocws ar berfformiad tymor byr. Mae tâl targed y cwmni ar gyfer y bonws blynnyddol ddwywaith mor uchel â'r un ar gyfer yr hirdymor. Hefyd, nid oes gan y cwmni raglen gohirio bonws er mwyn lliniaru'r pryderon hyn, ac nid oes ganddo drefniadau hawlio'n ôl ychwaith.

Manylion Cyswllt

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, dylech gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Cyfeiriad Post : Partneriaeth Pensiwn Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

E-bost: partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Ffôn: (01267) 224136

Ceir rhagor o wybodaeth am PPC a diweddariadau cyson ar gynnydd PPC ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

Gwefan: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Linked-In: <https://www.linkedin.com/Cwmni/wales-pension-partnership-PPC/>